



Rheoli Meddyginiaethau mewn Ysbytai Acíwt **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 251A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr neu weithiwr cyflogedig arall yn ei swyddogaeth unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@audit.wales.

Tracey Davies, Stephen Lisle, Elaine Matthews, Philip Jones, Stephen Pittey a Nigel Blewitt oedd y tîm a gyflawnodd y gwaith.

Cynnwys

Er lefelau staffio isel a llwyth gwaith uchel, nodwyd cysylltiadau da gennym ar wardiau, ynghyd ag agweddau effeithiol ar drefniadau corfforaethol a rhai prosesau rheoli meddyginiaethau. Mae angen nawr i'r Bwrdd lechyd ddatblygu ei ddull strategol, mynd i'r afael â phroblemau storio, sicrhau bod rhai risgiau proses cyn lleied â phosibl a gwella'r ffordd y mae'n monitro ei wasanaethau.

Adroddiad cryno

Cefndir	4
Canfyddiadau allweddol	6
Meysydd posibl ar gyfer argymhellion	8

Adroddiad manwl

Rhan 1: Trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau 10

Nid oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, nid yw fferylliaeth yn cymryd rhan ddigonol mewn datblygiadau strategol allweddol ac mae cyfranogiad gweithredol mewn rheoli meddyginiaethau wedi canolbwyntio ar faterion ariannol yn bennaf

Rhan 2: Y gweithlu rheoli meddyginiaethau 15

Er bod gwasanaethau'n ymatebol a chysylltiadau'n dda, y lefelau staffio fferylliaeth yw'r isaf yng Nghymru a cheir lle i ymsefydlu fferylliaeth ymhellach mewn timau ward

Rhan 3: Cyfleusterau rheoli meddyginiaethau 26

Mae cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â mwyafrif y gofynion allweddol ond ceir rhai problemau yn gysylltiedig â diogelwch a storio yn yr ardal fferylliaeth ac ar y wardiau

Rhan 4: Prosesau rheoli meddyginiaethau 31

Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau da ar gyfer cefnogi rhyddhad ond ceir problemau gyda chysoni cyffuriau, cofnodi statws alergedd, dosiau a hepgorwyd a chefnogi cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n iawn

Rhan 5: Monitro gwasanaethau fferylliaeth 45

Ceir tystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd prosesau dysgu ac mae angen cryfhau gwaith adrodd ar berfformiad a deall mwy am y rhesymau am ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth

Atodiadau

Methodoleg	50
------------	----

Adroddiad cryno

Cefndir

1. Rhagnodi yw'r ymyriad therapiwtig mwyaf cyffredin yn y GIG.¹ Yn 2013-14, gwariodd cyrff iechyd Cymru £258 miliwn ar brynu cyffuriau (wyth deg y cant yn fwy nag yn 2012-13)².
2. Mae 'rheoli meddyginiaethau' yn cynnwys llawer mwy na phrynu cyffuriau yn unig. Mae'r term yn cwmpasu'r holl brosesau ac ymddygiadau sy'n dylanwadu ar y defnydd clinigol a chost-effeithiol o feddyginiaethau yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol i gleifion.
3. Mae angen rheoli meddyginiaethau cleifion yn dda er mwyn sicrhau bod eu triniaeth a'u gwellhad y gorau y gallant fod ac er mwyn sicrhau gwerth am arian o'u meddyginiaeth. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos y prif ffynonellau o niwed i gleifion o reoli meddyginiaethau'n wael.

Arddangosyn 1: Ffeithiau allweddol am y tair prif ffynhonnell o niwed o feddyginiaethau

 <p>Adweithiau niweidiol</p> <p>Mae oddeutu 6% o dderbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig ag adweithiau niweidiol i gyffuriau.</p>	 <p>Peidio cadw at gyfarwyddiadau</p> <p>Mae'r ffaith nad yw cleifion yn cymryd eu cyffuriau fel yr argymhellwyd yn broblem fawr.</p> <p>Nid yw hyd at 50% o'r holl feddyginiaethau a ragnodir yn cael eu cymryd yn ôl y bwriad.</p> <p>Mae hyn yn costio hyd at £200m i'r Deyrnas Unedig bob blwyddyn o ran y cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu.</p>	 <p>Gwallau wrth ragnodi</p> <p>Mae'r amcangyfrifon ynghylch cyfraddau'r gwallau wrth ragnodi yn amrywio'n helaeth. Canfu un astudiaeth fod 50% o dderbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â gwall wrth ragnodi.</p>
--	--	--

Ffynhonnell: Mae'r troednodiadau'n cynnwys ffynonellau'r data am adweithiau niweidiol³, gwallau wrth ragnodi⁴ a pheidio cadw at gyfarwyddiadau^{5,6}

¹ 1000 o Fywydau a Mwy – www.1000livesplus.wales.nhs.uk/medicines

² Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni ariannol y GIG, gan gynnwys gwariant ym meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

³ Pirmohamed et al, Adverse drug reactions as cause of admission to hospital: prospective analysis of 18820 patients, British Medical Journal, 2004; 329(7456), 15-19

⁴ Lewis et al, Prevalence, incidence and nature of prescribing errors in hospital inpatients: a systematic review, Drug Saf 2009; 32:379-89

⁵ 1000 o Fywydau a Mwy, Cyflawni gofal iechyd darbodus yn GIG Cymru, Mehefin 2014

-
4. Ym mis Mai 2014, amlygodd adolygiad annibynnol⁷ ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, o'r enw Ymddiried mewn Gofal (Adroddiad Andrews), broblemau difrifol o ran rhoi a chofnodi meddyginiaethau. Yn dilyn Ymddiried mewn Gofal, gorchmynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hap-archwiliadau dirybudd mewn 20 ysbyty ledled Cymru. Y prif ganfyddiadau o'r hap-archwiliadau oedd yr angen i wella safonau o ran rhoi meddyginiaeth, storio meddyginiaeth a chwblhau siartiau meddyginiaeth.
 5. Pwysleisiodd Ymddiried mewn Gofal hefyd pwysigrwydd pob math o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i reoli meddyginiaethau cleifion. Mae staff fferylliaeth yn ganolog i reoli meddyginiaethau ond mae gan staff o bob disgyblaeth swyddogaeth bwysig i'w chyflawni, fel y nodir mewn canllawiau gan gyrrff cynrychiolwyr^{8,9}. Mae angen grymuso cleifion hefyd i'w helpu i gael y gorau o'u meddyginiaeth.
 6. Mae darparu meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn ddarvoudus yn ganolbwynt allweddol yn agenda 'gofal iechyd darvoudus' Llywodraeth Cymru. Egwyddorion gofal iechyd darvoudus yw sicrhau cyn lleied o niwed y gellir ei osgoi â phosibl, cynnal yr ymyrraeth briodol ofynnol a hybu tegwch rhwng pobl sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau. Mae'r agweddau allweddol ar ragnodi yn ddarvoudus yn ymwneud felly â rhagnodi'n ddiogel sy'n sicrhau cyn lleied o adweithiau niweidiol i gyffuriau â phosibl, rhagnodi'n geidwadol i atal cleifion rhag cymryd meddyginiaethau'n ddiangen, a chynnwys cleifion yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal eu hunain.
 7. Mae rheoli meddyginiaethau'n agenda sy'n newid yn gyflym oherwydd technolegau newydd, cyffuriau newydd, ac ail-ddylunio gwasanaethau. O gofio mai gwariant ar feddyginiaethau yw un o'r meysydd uchaf o wariant y GIG, mae cyni cyllidol hefyd yn ysgogi newid o ran rheoli meddyginiaethau, wrth i sefydliadau ailystyried llwybrau triniaeth er mwyn sicrhau y darperir triniaethau sy'n glinigol briodol ac yn gost-effeithiol ar yr adeg gywir. Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn ei bod yn amser da nawr i ystyried y materion ledled Cymru.
 8. Mae ein hastudiaeth yn dilyn ymlaen o waith archwilio lleol blaenorol yr ydym wedi ei wneud ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol. Mae'n canolbwyntio ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Rydym yn trafod gwybodaeth am feddyginiaeth a ddarperir gan feddygon teulu i gefnogi derbyniadau, adolygiadau meddyginiaeth y mae cleifion yn eu derbyn ystod eu harhosiad, y cymorth a roddir i gleifion i gymryd eu meddyginiaeth a'r trefniadau i sicrhau gwaith rheoli meddyginiaethau da ar ôl rhyddhau cleifion. Nid ydym yn cynnwys caffael na chyflenwi meddyginiaeth i raddau helaeth.
 9. Rydym yn cyfeirio yn yr adroddiad hwn at y sefyllfa mewn safleoedd ysbyty dethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) ac rydym hefyd yn cyflwyno data o gyfres o ymweliadau â wardiau ac adolygiadau cleifion a gynhaliwyd ar draws sampl a wardiau a ddewiswyd yn ofalus yn rhan o'n methodoleg. Wrth adolygu'r wybodaeth hon, mae'n bwysig nodi bod ein canfyddiadau'n ymwneud ag agweddai penodol ar reoli meddyginiaethau i ni eu harchwilio ar bwynt penodol mewn amser. Mae hefyd yn bwysig nodi, er i ni arolygu staff nyrsio, derbyniwyd ymatebion gan 12 nyrs yn y

⁶ Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, From Compliance to Concordance – Achieving Partnership in Medicine-Taking, RPSGB, Llundain, 1997. Shapps, Grant, A bitter pill to swallow: A report into the cost of wasted medicine in the NHS, Mehefin 2007.

⁷ Yr Athro June Andrews, Mark Butler, Ymddiried mewn Gofal: Adroddiad Adolygiad Allanol Annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Mai 2014

⁸ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Standards for Medicines Management

⁹ Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Good practice in prescribing and managing medicines and devices, 31 Ionawr 2013

Bwrdd Iechyd yn unig ac felly nod ydym wedi adrodd canlyniadau'r arolwg hwnnw. Mae **Atodiad 1** yn dangos manylion llawn ein dull.

10. Yn y Bwrdd Iechyd, ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn canlynol: **A oes trefniadau diogel, effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt?**
11. Nodir y canfyddiadau allweddol o'n gwaith isod a chânt eu hystyried ymhellach yn adran fwy manwl yr adroddiad.

Canfyddiadau allweddol

Er lefelau staffio isel a llwyth gwaith uchel, nodwyd cysylltiadau da gennym ar wardiau, ynghyd ag agweddau effeithiol ar drefniadau corfforaethol a rhai prosesau rheoli meddyginiaethau. Mae angen nawr i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei ddull strategol, mynd i'r afael â phroblemau storio, sicrhau bod rhai risgiau proses cyn lleied â phosibl a gwella'r ffordd y mae'n monitro ei wasanaethau.

Trefniadau corfforaethol: Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, nid yw fferylliaeth yn cymryd rhan ddigonol mewn datblygiadau strategol allweddol ac mae cyfranogiad gweithredol mewn rheoli meddyginiaethau wedi canolbwyntio ar faterion ariannol yn bennaf

- Er bod llinellau eglur o gyfrifoldeb yn y tîm fferylliaeth, mae cyfranogiad gweithredol mewn rheoli meddyginiaethau wedi canolbwyntio ar arbedion cost. Mae'n ymddangos bod cyfranogiad staff meddygol mewn grwpiau meddyginiaethau yn dda, ond mae cyfranogiad nyrsio yn gyfyngedig.
- Nid oes dull eglur, integredig, strategol ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Prin y mae fferylliaeth yn cymryd rhan mewn fforymau gwneud penderfyniadau uwch ac mae'n aml yn wir nad yw datblygiadau gwasanaeth allweddol yn rhoi sylw i'r goblygiadau i fferylliaeth o ran adnoddau.
- Caiff gwybodaeth ariannol ei monitro a'i chraffu yn rheolaidd ac mae'r cynllun arbedion rheoli meddyginiaethau yn gwneud yn well na'r disgwyl.
- Mae'r tîm fferylliaeth yn treulio cyfnod nodweddiadol o amser yn cefnogi ac yn mynychu paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol, er nad yw'r paneli hyn yn bodloni gofynion cenedlaethol yn llawn gan nad oes unrhyw aelodau lleyg.

Gweithlu: Er bod gwasanaethau'n ymatebol a chysylltiadau'n dda, y lefelau staffio fferylliaeth yw'r isaf yng Nghymru a cheir lle i ymsefydlu fferylliaeth ymhellach mewn timau ward

- Er mai'r tîm fferylliaeth sydd â'r gymysgedd sgiliau a'r lefelau staffio isaf yng Nghymru o'u cymharu â gweithgarwch cleifion mewnol, ceir tystiolaeth gymysg o ran a yw llwyth gwaith y tîm yn ormodol.
- Er bod staff yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd am y pwyslais ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, nid oes adnodd fferylliaeth penodol i ategu hyfforddiant staff meddygol ac mae lefel y mewnbnw i hyfforddiant ymsefydlu meddygon iau yn amrywio o safle i safle.
- Ceir cysylltiadau effeithiol ar y wardiau'n gyffredinol, er bod nifer o ddangosyddion fferylliaeth glinigol yn awgrymu bod lle i wneud mwy i ymsefydlu fferyllwyr mewn timau ward.
- Mae gwasanaethau fferylliaeth yn hygyrch ac ymatebol yn gyffredinol, er bod oriau gwaith yn ystod diwrnodau nad ydynt ar benwythnosau yn llai na'r cyfartaledd a cheir lle i wella oriau gwaith y tu allan i oriau arferol, yn enwedig yn Ystrad Fawr.

Cyfleusterau: Mae cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â mwyafrif y gofynion allweddol ond ceir rhai problemau yn gysylltiedig â diogelwch a storio yn yr ardal fferylliaeth ac ar y wardiau

- Mae cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol ar y cyfan, ond ceir problemau gyda diogelwch ffiniau a storio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, yn ogystal â larymau oergell y tu allan i oriau yn Ystrad Fawr.
- Rhoddwyd marc risg sylweddol i uned aseptic Nevill Hall gan arolygwyr allanol ac, yn gyffredin â gweddill Cymru, nid yw paratoad meddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau yn cael ei archwilio'n rheolaidd.
- Mae storio a diogelwch ar wardiau yn parhau i beri problemau er i'r staff ddweud bod storio wedi gwella yn y manau hynny lle cyflwynwyd peiriannau gwerthu.

Prosesau: Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau da ar gyfer cefnogi rhyddhad ond ceir problemau gyda chysoni cyffuriau, cofnodi statws alergedd, dosiau a hepgorwyd a chefnogi cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n iawn

- Mae trosglwyddo gwybodaeth gwael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn achosi risgiau diogelwch ac aneffeithlonrwydd.
- Roedd canran y cleifion a chysoniad meddyginiaethau prydlon ychydig yn is na'r cyfartaledd ac roedd amrywiad ar draws safleoedd o ran cyfran y cleifion a oedd wedi derbyn adolygiad meddyginiaeth cynhwysfawr.
- Mae ein harchwiliad wedi canfod problemau gyda chofnodi statws alergedd cleifion ac roedd yn ofynnol i'r tîm fferylliaeth ddiweddar statws alergedd cleifion yn llawer amlach nag ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd.
- Mae prosesau fformiwla'r Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â gweddill Cymru yn gyffredinol ac mae ymarfer â llaw sy'n cymryd amser yn ofynnol i fonitro cydymffurfiaid fformiwla'r.
- Nid oes trefn electronig ar gyfer rhagnodi yn cael ei defnyddio ar unrhyw wardiau ysbyty aciwt eto.
- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau gwaith cadw cofnodion a rheolaethau ymhellach o ran presgripsiynau anfeddygol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau uniongyrchol mewn ymateb i Ymddiried mewn Gofal er i ni ganfod cyfran gymharol uchel o achosion lle'r oedd yn aneglur a oedd dos wedi ei hepgor ai peidio.
- Y Bwrdd Iechyd oedd â'r gyfran uchaf o gleifion a oedd angen cymorth ychwanegol i gymryd eu meddyginiaeth ac mae angen iddo wneud llawer mwy i sicrhau bod anghenion cydymffurfiaid cleifion yn cael eu hasesu a'u diwallu'n gyson.
- Y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd uchaf o grynodedbau rhyddhau ac adolygiadau meddyginiaeth rhyddhau electronig ledled Cymru.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd amrywiaeth o gamau i wella stiwardio meddyginiaethau gwrth-ficrobau, er mai Ysbyty Brenhinol Gwent yw'r unig ysbyty â fferylllydd gwrthfotigau.

Monitro: Ceir tystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd prosesau dysgu ac mae angen cryfhau gwaith adrodd ar berfformiad a deall mwy am y rhesymau am ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth

- Er bod adroddiadau perfformiad yn ystyried amrywiaeth dda o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, ceir lle i gryfhau gwaith adrodd ar berfformiad trwy feincnodi a thrwy wella cysondeb a fformat adroddiadau.
- Mae cyfran y derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith i ddeall y rhesymau am ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth.
- Ceir tystiolaeth gymysg am effeithiolrwydd prosesau dysgu.

Argymhellion

A1 **Trefniadau corfforaethol:** O ran Rhan 1 yr adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Sicrhau bod cyfrifoldeb gweithredol penodol am bob agwedd ar reoli meddyginiaethau, gan gynnwys ansawdd a diogelwch.
- b. Ailystyried aelodaeth y Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg er mwyn sicrhau cynrychiolaeth nysio cyffredinol.
- c. Ysgrifennu strategaeth rheoli meddyginiaethau i nodi gweledigaeth eglur, integredig ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd a ddatblygir mewn partneriaeth lawn rhwng staff fferylliaeth, meddygol a nysio.
- ch. Creu gweithdrefn weithredu safonol sy'n ei gwneud yn ofynnol i fferylliaeth gael ei hymgyngori/cynnwys yn ystod camau cynnar cynllunio newidiadau gwasanaeth, fel y gellir asesu anghenion adnoddau fferylliaeth a'u hariannu'n briodol.
- d. Sicrhau bod paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol yn cynnwys dau aelod lleyg.

A2 **Gweithlu:** O ran Rhan 2 yr adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Adolygu goblygiadau ansawdd a diogelwch lefelau staffio fferylliaeth presennol a defnyddio data cymharol a ddarperir yn yr adroddiad hwn i sicrhau ei hun bod fferylliaeth yn darparu cymorth priodol ar bob safle aciwt.
- b. Gwerthuso a oes adnoddau fferylliaeth digonol wedi'u neilltuo i hyfforddiant ymsefydlu/parhaus staff meddygol.
- c. Ailystyried model gwasanaethau fferylliaeth er mwyn ystyried y gyfran gymharol uchel o wardiau heb unrhyw wasanaeth ymweld, dim wardiau â gwasanaeth ymweld saith diwrnod, nifer gymharol isel o fferyllwyr penodol ac oriau agor yn ystod diwrnodau nad ydynt ar y penwythnos sy'n llai na'r cyfartaledd.
- ch. Adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau peiriannau gwerthu meddyginiaeth yn Ysbyty Ystrad Fawr.

A3 **Cyfleusterau:** O ran Rhan 3 yr adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Ddatblygu cynllun gweithredu a chyfyngiad amser, wedi'i gostio i wella diogelwch ffiniau'n sylweddol yn Ysbyty Brenhinol Gwent.
- b. Sicrhau bod y risgiau cyfreithiol a diogelwch presennol sy'n gysylltiedig â storio hylifau mewnwythiennol mewn swmp ac eitemau swmp eraill yn Ysbyty Brenhinol Gwent cyn lleied â phosibl, trwy sicrhau nad yw eitemau'n hygyrch i'r cyhoedd ac yn cael eu storio mewn ystafell lle rheolir y tymheredd.
- c. Cyflwyno system rybuddio y tu allan i oriau i fonitro oergelloedd fferylliaeth yn Ysbyty Ystrad Fawr.
- ch. Sefydlu rhaglen archwilio reolaidd o baratoad meddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau.
- d. Datblygu cynllun a chyfyngiad amser, wedi'i gostio i fynd i'r afael â'r problemau storio meddyginiaeth ar wardiau o Ymddiried mewn Gofal.

A4 **Prosesau:** O ran Rhan 4 yr adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodeg y GIG i nodi amserlen a chynllun ariannu eglur ar gyfer gweithredu presgripsiynu'n electronig i gleifion mewnol a chyflwyno mynediad at y Cofnod Iechyd Unigol.
- b. Cadw cofrestr o ragnodwyr anfeddygol i fonitro a yw staff yn rhagnodi'n rheolaidd.
- c. Codi proffil canlyniadau archwiliadau diogelwch meddyginiaeth ar bob ward i hybu perfformiad rheoli meddyginiaethau gwell ac i leihau pa mor aml y caiff dosiau eu methu.
- ch. Dysgu o waith cenedlaethol ar Ragnodi Darbodus i ddatblygu cynllun gweithredu i gynyddu pwyslais fferylliaeth ar nodi anghenion cydymffuriad cleifion, addysgu/cwmsela cleifion, gwella gwybodaeth am feddyginiaethau a chynorthwyo cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n gywir.

A5 **Monitro:** O ran Rhan 5 yr adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Wella cysondeb adroddiadau perfformiad fferylliaeth ar draws safleoedd a gweithio gyda byrddau iechyd eraill i feincnodi perfformiad rheoli meddyginiaethau'n rheolaidd.
 - b. Cynnal dadansoddiadau pellach o gyfradd ymyriadau diogelwch a diweddariadau alergedd ei fferyllwyr i nodi'r achosion craidd a phenderfynu a ddylid arallgyfeirio mwy o adnoddau i atal gwallau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, yn hytrach na'u cywiro ar ôl iddynt ddigwydd.
-

Rhan 1

Trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, nid yw fferylliaeth yn cymryd rhan ddigonol mewn datblygiadau strategol allweddol ac mae cyfranogiad gweithredol mewn rheoli meddyginiaethau wedi canolbwyntio ar faterion ariannol yn bennaf


Strwythurau arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Er bod llinellau eglur o gyfrifoldeb yn y tîm fferylliaeth, mae cyfranogiad gweithredol mewn rheoli meddyginiaethau wedi canolbwyntio ar arbedion cost. Mae'n ymddangos bod cyfranogiad staff meddygol mewn grwpiau meddyginiaethau yn dda, ond mae cyfranogiad nyrsio yn gyfyngedig

12. Mae arweinyddiaeth effeithiol a llinellau eglur o atebolrwydd yn elfennau hanfodol o unrhyw wasanaeth gofal iechyd. Mae rheoli meddyginiaethau braidd yn gymhleth o'r safbwynt ei fod yn cwmpasu gwasanaethau a phrosesau sy'n cynnwys staff fferylliaeth, nyrsio a meddygol. Serch hynny, mae'n dal i fod yn bwysig bod atebolrwydd a strwythur uwch eglur.
13. Yn y Bwrdd Iechyd, y Prif Swyddog Gweithredu dros dro yw'r swyddog gweithredol sydd â'r cyfrifoldeb am Fwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau tra bod gan y Cyfarwyddwr Meddygol gyfrifoldeb gweithredol am baneli Ceisiadau Cyllid Cleifion Unigol. Bu canolbwynt bwrdd y rhaglen ar arbedion cost yn gysylltiedig â rheoli meddyginiaeth yn bennaf. Daethpwyd i'r casgliad felly bod lle i ehangu'r oruchwyliaeth lefel weithredol i bob agwedd ar reoli meddyginiaeth, yn hytrach na'r agenda effeithlonrwydd yn unig.
14. Mae gan y Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth gyfrifoldeb proffesiynol, rheoli a chyllidebol am y tîm fferylliaeth. Er nad yw'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn aelod o'r Bwrdd, fe'n hysbyswyd yn ystod cyfweiliadau nad yw hyn wedi cael effaith ar reoli staff a darparu gwasanaethau. Ceir arweinydd â chyfrifoldeb am reoli meddyginiaeth ym mhob isadran. Mae ymarferwyr cyffredinol yn gweithio mewn Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, sy'n cynnwys rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol ac yn y rhyngwyneb. Ceir arweinwyr ymarfer cyffredinol ar gyfer rhagnodi diabetes a gwrthfotigau.
15. Ceir arweinwyr cyfarwyddwr meddygol cyswllt â phwyslais ar reoli meddyginiaethau. Maent yn cynnwys meddyg gofal eilaidd ymgynghorol sy'n cadeirio'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg a hefyd yn gweithio gyda Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan a fforymau rhagnodi eraill. Mae meddygon eraill a swyddogaethau arweinyddiaeth ym maes rheoli meddyginiaethau'n cynnwys Is-gadeirydd y Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg; yr arweinydd dros Ofal wedi'i Drefnu; yr arweinydd Teuluoedd a Therapiau ar Fwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau ac Ymarferwr Cyffredinol sy'n Gadeirydd Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan. Mae'r trefniadau hyn yn darparu arweinyddiaeth feddygol dda o ran rheoli meddyginiaethau.
16. Mae gan ddau gyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol rywfaint o gyfrifoldeb am reoli meddyginiaethau, gan gynnwys diogelwch, profiad y claf, y gweithlu ac addysg. Ceir nyrs is-adrannol gynorthwyol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, yn arwain ar ran maes nyrsio corfforaethol, sy'n aelod gweithredol o'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg ac sydd â chyfrifoldeb am ragnodi nyrsys.

17. Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferylliaeth Ysbytai¹⁰ (y Safonau) yn nodi y dylai'r gwasanaeth fferylliaeth fod â llinellau eglur o atebolwydd proffesiynol a sefydliadol. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos bod 69 y cant o staff fferylliaeth yn ein harolwg ledled Cymru yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Ceir llinellau eglur o atebolwydd yn y tîm fferylliaeth'. 77 y cant oedd y ffigur cyfatebol yn y Bwrdd Iechyd, sy'n awgrymu bod llinellau atebolwydd ychydig yn fwy eglur yn y Bwrdd Iechyd nag yng ngweddill Cymru.

Arddangosyn 2: Roedd staff fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno'n gyffredinol â'r datganiad 'Ceir llinellau eglur o atebolwydd yn y tîm fferylliaeth' ac roedd mwy o gytuno na ledled Cymru gyfan



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferylliaeth

18. Mae'r Safonau hefyd yn nodi y dylai fod gan fyrddau iechyd grŵp rheoli meddyginiaethau fel canolbwynt ar gyfer datblygu polisi, gweithdrefnau a chanllawiau meddyginiaethau. Mae'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg yn darparu'r swyddogaeth hon tra bod Bwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau yn cynnig trosolwg ar leihau costau ac effeithlonrwydd.
19. Dylai grwpiau rheoli meddyginiaethau fod yn amlddisgyblaeth i adlewyrchu'r ffaith mai cyfrifoldeb nifer o grwpiau proffesiynol clinigol yw rheoli meddyginiaethau. Mae Bwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau yn cynnig trosolwg trwy ymgysylltu deiliaid cyllidebau is-adrannol. Staff meddygol yw 46 y cant o aelodaeth Bwrdd y Rhaglen Rheoli meddyginiaethau (sydd yn union yr un fath â'r ffigur cyfartalog ledled Cymru). Nid oes unrhyw gynrychiolwyr nyrsio ar Fwrdd y Rhaglen Rheoli meddyginiaethau (o'i gymharu â chyfartaledd o naw y cant ledled Cymru).
20. Mae'r Pwyllgor Meddyginiaeth a Therapiwteg yn cynnwys cynrychiolaeth fferylliaeth a meddygol dda o bob rhan o feysydd gofal sylfaenol ac eilaidd. Ceir aelod nyrs gofal sylfaenol hefyd, sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor fel rhagnodwr annibynnol. Nid oes cynrychiolaeth nyrsio cyffredinol.

¹⁰ Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Professional Standards for Hospital Pharmacy Services, Gorffennaf 2012

-
21. Er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng sectorau, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg hefyd yn nodi y dylai'r aelodaeth gynnwys chwe chynrychiolydd clinigol o feysydd allweddol gofal eilaidd gan gynnwys Gofal heb ei Drefnu, Gofal wedi'i Drefnu a Gwasanaethau Teuluol a Therapiwtig; yn ogystal â chwech arall o'r Is-adran Gofal Sylfaenol/Rhwydweithiau. Mae'r cylch gorchwyl hefyd yn nodi y gall y Cadeirydd gynrychioli maes gofal sylfaenol neu eilaidd, ond y dylai'r Is-gadeirydd fod o'r sector gofal arall bob amser.
 22. Yn ogystal â'i swyddogaeth o ran rheoli fformiwlâu, mae'r Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwtig hefyd yn canolbwyntio ar ddiogelwch cleifion a diogelwch cyffuriau. Cytunwyd ar ôl cyhoeddi Ymddiried mewn Gofal y byddai camau gwella'n cael eu cymryd drwy'r Grŵp Diogelwch Meddyginiaethau sy'n bodoli eisoes.

Strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Nid oes dull eglur, integredig, strategol ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd

23. Dylai fod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol eglur ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Dywedodd ein hadroddiad ar ragnodi gofal sylfaenol nad oedd gan y Bwrdd Iechyd ddull eglur, integredig a strategol ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae hyn yn parhau i fod yn wir.
24. Rydym wedi dynodi yn y gorffennol y bydd angen datblygu strategaeth rheoli meddyginiaethau hirdymor sy'n nodi meysydd newydd o flaenoriaeth yn gysylltiedig ag amcanion gwella iechyd lleol a ddylai fwydo yn eu tro i gynlluniau datblygu a lleoli'r gweithlu a chynlluniau cyflawni gweithredol.

Proffil a dylanwad fferylliaeth yn y bwrdd iechyd ehangach

Prin y mae fferylliaeth yn cymryd rhan mewn fforymau gwneud penderfyniadau uwch ac mae'n aml yn wir nad yw datblygiadau gwasanaeth allweddol yn rhoi sylw i'r goblygiadau i fferylliaeth o ran adnoddau

25. Os yw'r tîm fferylliaeth yn mynd i gael proffil a dylanwad digonol o fewn y Bwrdd Iechyd, dylai fod ganddo gynrychiolaeth briodol yn fforymau gwneud penderfyniadau uwch y Bwrdd Iechyd. Canfuwyd gennym mai Cwm Taf oedd yr unig fwrdd iechyd lle'r oedd fferylliaeth wedi'i gynrychioli ar y pwyllgorau uchaf sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch. Nid oedd yr un o dimau fferylliaeth y byrddau iechyd wedi'u cynrychioli ar y pwyllgor uchaf sy'n gyfrifol am lywodraethu clinigol neu reoli risg.
26. Byddai'r tîm fferylliaeth hefyd yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau sy'n ymwneud â meddyginiaethau. Mae hyn oherwydd pan gaiff swyddi meddygon ymgynghorol, clinigau a gwasanaethau newydd eu cyflwyno, mae hyn yn cael effaith anochel ar ddarpariaeth y gwasanaeth fferylliaeth. Ledled Cymru, canfuwyd gennym mai prin yw cyfranogiad rhai timau fferylliaeth mewn newidiadau i wasanaethau, ond nid yw'r tîm fferylliaeth yn Aneurin Bevan yn chwarae unrhyw ran o gwbl.

-
27. Mewn cyfweiliadau, clywsom ei bod yn aml yn wir fod datblygiadau a newidiadau gwasanaeth yn cael eu cyflawni heb roi sylw i oblygiadau adnoddau i fferylliaeth. Nododd ein gwaith rai enghreifftiau penodol. Cyflwynodd yr ysbytai newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr (Ystrad Fawr) ac Ysbyty Aneurin Bevan fodolau gofal arloesol ond heb gyllid ar gyfer fferylllydd. Fe'n hysbyswyd bod darpariaeth fferyllol annigonol yn Ysbyty Aneurin Bevan yn bryder a gydnabyddir ar y gofrestr risg fferylliaeth. Bu trafodaeth am ba un a ellid uwchgyfeirio'r mater hwn i'r gofrestr risg sefydliadol os nad yw'r achos busnes cyfredol am fwy o ddarpariaeth fferyllol yn llwyddiannus. Uwchgyfeiriwyd y mater o ddarpariaeth fferyllol annigonol yn Ystrad Fawr a recriwtiwyd fferylllydd band saith i ddechrau ym mis Chwefror ar gyfer y ddwy ward nad oes ganddynt wasanaeth fferylliaeth ar hyn o bryd.
 28. Roedd enghraifft arall o newid i wasanaeth heb ystyriaeth ddigonol i fferylliaeth yn y gwaith cynllunio gwasanaeth ar gyfer yr Uned Derbyniadau Meddygol a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Ni chymerodd fferylliaeth ran a nodwyd y mater hwn gan yr adroddiad Ymddiried mewn Gofal Lleol. Arweiniodd hyn at gyflwyno achos busnes am gymorth fferyllol.
 29. Fe'n hysbyswyd gan staff bod problemau gyda lefelau staffio ymhlith grwpiau proffesiynol eraill, fel nyrsys a ffisiotherapyddion yn cael eu cydnabod yn well yn gyffredinol nag yng nghyswllt fferylliaeth. Nid oes unrhyw 'faner goch' ar gyfer lefelau isel o staffio fferylliaeth a chlywsom fod disgwyliad i fferyllwyr orfod ymdopi â'u llwyth gwaith beunyddiol.

Rheolaeth ariannol rheoli meddyginiaethau

Caiff gwybodaeth ariannol ei monitro a'i chraffu yn rheolaidd ac mae'r cynllun arbedion rheoli meddyginiaethau yn gwneud yn well na'r disgwyl

30. Caiff gwariant ar feddyginiaethau gofal eilaidd ei adrodd a'i adolygu'n fisol trwy Fwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau, ond ni chaiff ei adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd na'r tîm gweithredol. Y Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth sy'n darparu'r wybodaeth ariannol fisol i Fwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau yn cynnwys rhagolygon gwario, perfformiad y cynllun arbedion a darpariaeth ffrydiau gwaith rheoli meddyginiaethau.
31. Roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud cyfanswm (hy gofal sylfaenol ac eilaidd) o £3.7 miliwn mewn arbedion rheoli meddyginiaethau yn 2014-15 ac mae bellach yn rhagweld arbedion o £3.8 miliwn. O hyn, dywedir bod £3.7 miliwn yn ailadroddus. Yn 2013-14, bwriadwyd gwneud arbedion o £5.5 miliwn a llwyddwyd i arbed £7 miliwn, a dywedwyd bod £6.7 miliwn yn ailadroddus.
32. Mae'r gyllideb meddyginiaethau gofal eilaidd wedi gorwario o £9.5 miliwn ar 28 Chwefror 2015 a rhagwelir y bydd yn orwariant o £9.8 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cynrychioli gwaethygiad yn erbyn y duedd o'i chymharu â'r adroddiad chwe misol (a nododd rhagolwg gorwario o £8.5 miliwn). Mae'r gwariant diwedd blwyddyn rhagamcanol ar feddyginiaethau gofal eilaidd, sef £65.7 miliwn, yn cynrychioli gostyngiad o £0.2 miliwn o alldro 2013-14 o £65.5 miliwn.
33. Clywsom mewn cyfweiliadau mai'r targed arbedion yw'r brif flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Er bod llinell y gyllideb rhagnodi'n cael ei hysbysu i'r Bwrdd, nid ydynt yn cael gwybod am bryderon ansawdd a diogelwch. Clywsom hefyd bod y pwyslais ar gyfyngiant costau ac nid buddsoddi. Fe'n hysbyswyd y gall fod yn anodd iawn dangos y cysylltiad rhwng gwasanaeth mwy diogel sydd wedi gwella ac unrhyw arbedion ariannol cysylltiedig. Gall hyn, yn ei dro, ei gwneud yn anodd llunio achos busnes am unrhyw fuddsoddiad mewn datblygiadau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â fferylliaeth.

-
- 34.** Gan ymateb i'n harolwg, roedd 47 y cant o staff fferylliaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf¹¹ â'r datganiad 'Nid yw arbedion ariannol a enwir mewn gwasanaethau fferylliaeth yn effeithiol ar ganlyniadau cleifion' o'i gymharu â 38 y cant ledled Cymru. Er bod hyn yn adlewyrchu tybiaeth sampl o staff yn unig, gallai awgrymu y dylai'r Bwrdd Iechyd fyfyrion ar ba un a yw ei ymdrech i sicrhau arbedion yn effeithio'n andwyol ar ganlyniadau cleifion.

Ceisiadau cyllid cleifion unigol

Mae'r tîm fferylliaeth yn treulio cyfnod nodweddiadol o amser yn cefnogi ac yn mynychu paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol, er nad yw'r paneli hyn yn bodloni gofynion ceedlaethol yn llawn gan nad oes unrhyw aelodau lleyg

- 35.** Ceisiadau gan glinigwyr sydd eisiau cymeradwyaeth bwrdd iechyd i ddefnyddio meddyginiaethau na ariennir gan y GIG fel rheol yw ceisiadau cyllido cleifion unigol. Mae byrddau iechyd angen prosesau cadarn a phaneli ceisiadau cyllido cleifion unigol effeithiol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y ceisiadau hyn. Argymhellodd adroddiad Cymru gyfan o fis Ebrill 2014 y dylai paneli sy'n ymdrin â cheisiadau cyllid cleifion unigol gynnwys o leiaf dau aelod lleyg, y dylai ceisiadau gael eu sgrinio a'u llofnodi gan arweinydd clinigol neu bennaeth yr adran cyn cyfarfodydd.¹²
- 36.** Yn y Bwrdd Iechyd, nid yw'r panel ceisiadau cyllido cleifion unigol yn cynnwys aelodau lleyg er bod yr holl geisiadau cyllid cleifion unigol yn cael eu sgrinio cyn i'r panel eistedd ac y caiff pob achos ei gadarnhau gan yr is-adran cyn cael ei ystyried gan y cydgysylltydd ceisiadau cyllido cleifion unigol.
- 37.** Yn 2013-14, ystyriodd y panel ceisiadau cyllido cleifion unigol yn y Bwrdd Iechyd 76 o geisiadau'n ymwneud â meddyginiaethau a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 60¹³. Treuliodd fferyllwyr a thechnegwyr y Bwrdd Iechyd gyfnod cymesur o amser yn cynorthwyo ac yn mynychu'r paneli hyn (200 awr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 193 awr). Caiff tua chwech i wyth o achosion eu hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae'r Prif Fferylllydd yn paratoi ar gyfer pob cyfarfod sy'n cymryd tua diwrnod bob pythefnos. Cadeirydd y panel ceisiadau cyllido cleifion unigol yw cadeirydd y Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg hefyd, ac fe'n hysbyswyd mewn cyfweiliad bod y broses ceisiadau cyllido cleifion unigol yn gweithio'n dda.

¹¹ Nid oedd 20 y cant o staff yn cytuno nac yng anghytuno tra bod 17 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

¹² National IPFR Review Group, Review of the individual patient funding request process, Ebrill 2014.

¹³ Ni chyfrifwyd Betsi Cadwaladr yng nghyfartaledd Cymru: ni chaiff mwyafrif y ceisiadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu rheoli drwy'r panel ceisiadau cyllido cleifion unigol.

Rhan 2

Y gweithlu rheoli meddyginiaethau

Er bod gwasanaethau'n ymatebol a chysylltiadau'n dda, y lefelau staffio fferylliaeth yw'r isaf yng Nghymru a cheir lle i ymsefydlu fferylliaeth ymhellach mewn timau ward

Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau

Er mai'r tîm fferylliaeth sydd â'r gymysgedd sgiliau a'r lefelau staffio isaf yng Nghymru o'u cymharu â gweithgarwch cleifion mewnol, ceir tystiolaeth gymysg o ran a yw llwyth gwaith y tîm yn ormodol

- 38.** Dylai timau fferylliaeth fod â'r gymysgedd sgiliau, y gallu a'r capasiti priodol i reoli meddyginiaethau cleifion yn effeithiol yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau fferylliaeth ehangach. Cynhaliodd y byrddau iechyd ymarfer mapio adnoddau eu timau fferylliaeth eu hunain ddiwedd 2014. Mae [Arddangosyn 3](#) yn amlygu rhai o'r dangosyddion staffio o'r ymarfer hwnnw ac yn awgrymu mai tîm fferylliaeth y Bwrdd Iechyd sydd â'r lefel staffio isaf yng Nghymru o'i chymharu â gweithgarwch cleifion mewnol¹⁴. Y gymhareb cymysgedd sgiliau yw'r cydradd isaf ledled Cymru.

¹⁴ Mae data lefelau staffio a diwrnodau gwely yn adlewyrchu'r safleoedd ysbyty aciwt yn y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 3: Mae proffil staffio'r Bwrdd Iechyd yn dynodi tîm fferylliaeth llai nag mewn byrddau iechyd eraill ledled Cymru


		Aneurin Bevan	Cyfartaledd Cymru
Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau	Cyfanswm y fferyllwyr a'r technegwyr yn eu swyddi (cyfwerth ag amser llawn)	119	148
	Cymhareb fferyllwyr i dechnegwyr	48:52	51:49
	Fferyllwyr a thechnegwyr (cyfwerth ag amser llawn) fesul 100,000 o ddiwrnodau gwely	28	37
Costau staffio ¹⁵	Cost gyfartalog fesul Fferylllydd cyfwerth ag amser llawn	£60,600	£63,600
	Cost gyfartalog fesul Technegydd cyfwerth ag amser llawn	£36,500	£35,900
	Fferylllydd a thechnegydd: cost fesul awr	£2,900	£3,800
	Fferylllydd a thechnegydd: cost fesul diwrnod gwely	£13.59	£18.68

Ffynhonnell: Ymarfer Mapio Adnoddau a gynhaliwyd gan dimau fferylliaeth ledled Cymru (2014), StatsCymru 'Gwelyau GIG fesul sefydliad a safle' (2013-14). Mae'r data hyn yn cynnwys staff aciwt yn unig ac nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys yr amser/adnoddau a neilltuwyd i weithgareddau gofal sylfaenol a fferylliaeth gymunedol.

¹⁵ Mae costau gros yn seiliedig ar bwynt canol pob band cyflog ac yn cynnwys lwfansau rota, blwydd-daliadau ac yswiriant gwladol. Mae'r gost fesul awr yn seiliedig ar gyfanswm y fferyllwyr a thechnegwyr cyfwerth ag amser llawn ym mhob band cyflog, ac yna lluosu'r ffigurau hyn gyda'r gost gros fesul awr (gan dybio 37.5 awr yr wythnos am 52 wythnos y flwyddyn) ar bwynt canol pob band, ac yna crynhoi'r cyfansymiau ar draws bob band.

- 39.** Amlygodd ein gwaith ledled Cymru dybiaethau cyffredinol o lwyth gwaith uchel a dim digon o staff. Fodd bynnag, roedd gan staff fferylliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan safbwyntiau mwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar eu llwyth gwaith a'r lefel staffio. Roedd 46 y cant o staff fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae digon o staff fferylliaeth yn y sefydliad hwn i mi wneud fy ngwaith yn iawn'. Mae hyn yn cymharu â 24 y cant ledled Cymru. Mae Arddangosyn 4 yn dangos i ba raddau yr oedd staff yn cytuno â'r datganiad 'Mae gen i amser i wneud fy holl waith', ac yn awgrymu rhaniad o ran safbwyntiau staff. Gallai hyn olygu y caiff rhai staff eu heffeithio'n anghymesur pan fydd swyddi gwag yn codi ac y bydd pwysau llwyth gwaith yn cynyddu ymhellach.

Arddangosyn 4: Roedd staff fferylliaeth yn anghytuno'n gyffredinol â'r datganiad 'Mae gen i amser i wneud fy holl waith' er bod eu safbwyntiau'n fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ledled Cymru



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferylliaeth

- 40.** Mewn cyferbyniad â'r canfyddiad hwn, fe'n hysbyswyd gan y rhai a gyfwelwyd bod pwysau ar dimau fferylliaeth gofal eilaidd. Dywedasant fod yr Agenda ar gyfer Newid wedi cael effaith barhaus ar staffio; pan roedd apeliadau staff yn erbyn penderfyniadau graddio yn llwyddiannus, nid oeddent wedi'u hariannu felly roedd yn rhaid dod o hyd i arian trwy ail-raddio swyddi a oedd yn dod yn wag i lawr. Mae cymorth fferylliaeth wrth gefn wedi'i gyfyngu i ddwy awr fesul ward o 32 gwely. Gyda chwech i saith o gleifion newydd yn ystod pob ymweliad, gan roi 20 munud fesul claf, fe'n hysbyswyd mai dim ond achosion o dderbyn a rhyddhau y gellir eu gweld. Weithiau nid yw cleifion yn gleifion mewnol am gyfnod ddigon hir i dderbyn mewnbyn proffesiynol gan fferylliaeth.
- 41.** Fe'n hysbyswyd gan staff bod bylchau penodol mewn gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws y Bwrdd Iechyd, ym maes fferylliaeth wrthficrobaidd, a bod diffyg adnoddau mewn adrannau achosion brys.

Hyfforddiant a datblygiad

Er bod staff yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd am y pwyslais ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, nid oes adnodd fferylliaeth penodol i ategu hyfforddiant staff meddygol ac mae lefel y mewnbwn i hyfforddiant ymsefydlu meddygon iau yn amrywio o safle i safle

42. Dywedodd y Cynllun Sicrhau Ansawdd¹⁶ ar gyfer y GIG yng Nghymru y dylai byrddau iechyd gynllunio i hyfforddi 25 y cant o'u staff mewn dulliau gwella ansawdd erbyn diwedd mis Mawrth 2014. Caiff 14 y cant o staff fferylliaeth gofal eilaidd yn y Bwrdd Iechyd eu hyfforddi hyd at lefel efydd o leiaf yn y dull Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd a arweinir gan 1000 o Fywydau a Mwy. Ar draws byrddau iechyd, roedd y ffigur yn amrywio o 0.7 y cant i 67 y cant. Ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd, 24 y cant yw cyfanswm cyfran y staff fferylliaeth gofal eilaidd sydd wedi'u hyfforddi hyd at lefel efydd o leiaf, sy'n sylweddol uwch na'r lefel a adroddwyd yn y Bwrdd Iechyd.
43. Yn ein harolwg, roedd 61 y cant o staff fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Rwy'n derbyn hyfforddiant, dysgu a datblygiad digonol'. Roedd hyn yn cymharu â 50 y cant ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae data o'r ymarfer mapio adnoddau'n dangos bod staff fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd wedi treulio cyfartaledd o naw y cant o'u hamser yn derbyn hyfforddiant, addysg a datblygiad personol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd ledled Cymru.
44. Gall hyfforddiant ar gyfer staff nyrsio a meddygol fod yn ffactor llwyddiant allweddol o ran cyfrannu at ymgysylltiad amlddisgyblaeth da ym maes rheoli meddyginiaethau. Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferylliaeth Ysbytai (y Safonau) yn nodi y dylai fferylliaeth gefnogi hyfforddiant ymsefydlu a pharhaus yr holl staff clinigol. Ledled Cymru, mae byrddau iechyd yn ariannu cyfartaledd o 0.7 o staff fferylliaeth cywerth ag amser llawn i ddarparu hyfforddiant i staff meddygol. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw staff sydd wedi'u hariannu ar gyfer y swyddogaeth hon.
45. Oherwydd eu profiad cymharol gyfyngedig, mae staff meddygol iau yn un grŵp staff sydd mewn angen penodol o hyfforddiant rheoli meddyginiaethau. Mae cyfranogiad fferylliaeth mewn hyfforddiant ymsefydlu meddygon iau yn amrywio o ysbyty i ysbyty yn y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, fe'n hysbyswyd bod staff fferylliaeth yn rhoi cyflwyniad 15 munud yn rhan o'r broses ymsefydlu mewn rhai mannau, ond nid oes unrhyw fewnbwn fferylliaeth yn ystod y cyfnod ymsefydlu yn Ystrad Fawr.
46. Yn ogystal â threfniadau hyfforddi ac ymsefydlu lleol, ceir mewnbwn fferylllydd i holl gyrsiau Cwrs Sylfaen Cymru Gyfan ar gyfer meddygon iau. Fe'i cynhelir tua phum gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys un sesiwn ar reoli meddyginiaethau. Nid oes unrhyw gyllid ar lefel genedlaethol ar gyfer hyn, ac fe'n hysbyswyd bod anghytuno bob amser ynghylch pwy ddylai dalu. Mae pawb yn cydnabod pwysigrwydd y sesiwn hon i feddygon iau ac mae meddygon ymgynghorol yn cofio pa mor ddefnyddiol oedd y sesiwn iddyn nhw flynyddoedd lawer yn ddiweddarach.
47. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall, mae staff fferylliaeth yn cynnal hyfforddiant ar gyfer y meddygon F1 sy'n cael sesiwn 10 munud wythnosol a mater rhagnodi byr ar gyfer yr wythnos. Mae hwn wedi cael ei gynig ers mis Medi ac wedi derbyn adborth da. Mae'r pynciau y rhoddyd sylw iddynt yn cynnwys alergeddau, thrombo-proffylacsis a llawdriniaeth a gentamycin. Mae ganddynt bynciau dethol lle mae'r fferyllwyr yn ymyrryd fwyaf aml o ran rhagnodi meddygon. Nid oes unrhyw fewnbwn i hyfforddiant meddygon iau yn Ystrad Fawr, dim ond cyngor ad hoc a ddarperir gan dechnegwyr.

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 2012-2016, 2012.

-
48. Yn ein harolwg, roedd 32 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'n rhwydd i mi gadw fy sgiliau rheoli meddyginiaethau yn gyfredol'. Roedd hyn yn cymharu â 35 y cant ledled Cymru.
49. Pan nodir camgymeriadau rhagnodi meddyg, ymdrinnir â hwy trwy ddysgu, ail-ddilysu a gwerthuso. Mae'n ofynnol yn ystod y broses hon i feddygon lenwi cofnod dysgu a adolygir gan y tîm ail-ddilysu. Mae gan y Bwrdd Iechyd fecanweithiau ar waith hefyd i gymell uwchgyfeirio digwyddiadau rhagnodi mwy difrifol drwy'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Ymdrinnir â materion o ansawdd perfformiad mewn tîm drwy'r Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol fel rheol.
50. Yn ein harolwg, roedd 28 y cant o staff fferylliaeth a 37 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad 'Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaethau da ar waith i fonitro perfformiad presgrisiynwyr meddygol'¹⁷. Roedd hyn yn cymharu â 23 y cant o staff fferylliaeth a 29 y cant o feddygon ledled Cymru.
51. Mae rheoli meddyginiaethau'n bwnc yn y rhaglen ymsefydlu ar gyfer nyrsys sydd newydd gymhwyso, ac mae fferylliaeth yn rhan o nifer o weithgareddau addysgol a hyfforddiant eraill i nyrsys. Ym mis Awst 2014, darparodd y Coleg Nyrsio Brenhinol sesiynau dwy awr i bob nyrsys hyfforddedig i'w diweddarau ar y materion meddyginiaeth yn Ymddiried mewn Gofal, yr adroddiad gan yr Athro June Andrews. Mae fferylliaeth hefyd wedi datblygu hyfforddiant i staff nyrsio mewn ymateb i'r materion hyn. Yn unol â'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd, nid oes unrhyw hyfforddiant diweddarau ar reoli meddyginiaethau i nyrsys fel mater o drefn. Awgrymwyd ffyrdd eraill o wella gwaith rheoli meddyginiaethau nyrsys yn ystod cyfweiliadau. Er enghraifft, trwy arweinyddiaeth nyrs benodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, adrodd ar reoli meddyginiaeth i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fel mater o drefn, a hyfforddiant diweddarau rheoli meddyginiaethau parhaus.

Gwasanaethau fferylliaeth glinigol

Ceir cysylltiadau effeithiol ar y wardiau'n gyffredinol, er bod nifer o ddangosyddion fferylliaeth glinigol yn awgrymu bod lle i wneud mwy i ymsefydlu fferyllwyr mewn timau ward

52. Mae fferylliaeth glinigol yn disgrifio gweithgarwch timau fferylliaeth ar wardiau ac mewn lleoliadau clinigol. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys ymgysylltu â chleifion yn uniongyrchol, rhoi cyngor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a chwarae rhan lawn yn y dull tîm amlddisgyblaeth o reoli meddyginiaethau pobl. Mae'r Safonau'n dweud y dylid integreiddio fferyllwyr i dimau clinigol a darparu gofal clinigol diogel a phriodol yn uniongyrchol i gleifion.
53. Dangosodd yr ymarfer mapio adnoddau a gynhaliwyd ledled Cymru ddiwedd 2014 bod fferyllwyr a thechnegwyr y Bwrdd Iechyd fel rheol yn treulio 43 y cant o'u hamser yn cefnogi wardiau a chlinigau yn uniongyrchol, sy'n fwy na'r cyfartaledd o 32 y cant ledled Cymru¹⁸.

¹⁷ Ymatebodd tri deg y cant o staff fferylliaeth a meddygon 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

¹⁸ Data mapio adnoddau yn ymwneud â grwpiau staff Fferyllwyr a Thechnegwyr ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.


54. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos rhai o'r data allweddol i ni eu casglu yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol ar chwe ward ar draws y Bwrdd Iechyd (mae manylion y wardiau hyn ar gael yn **Atodiad 1**). Mae'r arddangosyn hefyd yn dangos data o'n harolygon staff a'n harchwiliad ehangach, yn ymwneud â chysylltiadau a gwasanaethau fferylliaeth glinigol ar y wardiau.

Arddangosyn 5: Ceir cysylltiadau da ar y wardiau er mai'r Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfran isaf o fferyllwyr penodol yng Nghymru

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd	Cymru	Arsylwadau
% y staff fferylliaeth a ddywedodd bod perthynas dda neu ragorol â staff meddygol	72%	78%	Mae perthynas dda rhwng fferylliaeth, staff meddygol a staff nyrsio yn hanfodol ar gyfer dull amlddisgyblaeth effeithiol o reoli meddyginiaethau. Roedd 71% o staff meddygol yn cytuno bod y berthynas â fferylliaeth yn dda neu'n rhagorol.
% y staff fferylliaeth a ddywedodd bod perthynas dda neu ragorol â staff nyrsio	87%	88%	
% y wardiau â fferyllwyr penodol	80%	91%	Gall neilltuo fferyllwyr a thechnegwyr penodol i wardiau penodol gynorthwyo gyda chysylltiadau gwaith. Y canran o wardiau â fferyllwyr penodol yw'r isaf ledled Cymru a cheir amrywiad hefyd rhwng ysbytai'r Bwrdd Iechyd – 80% yn Ysbyty Neville Hall, 83% yn Ysbyty Brenhinol Gwent a 63% yn Ystrad Fawr. Ar y llaw arall, mae nifer y technegwyr penodol yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r tri safle (Ysbyty Nevill Hall 55%, Ysbyty Brenhinol Gwent 66%, Ystrad Fawr 63%).
% y wardiau â thechnegydd penodol	62%	50%	
% y wardiau heb unrhyw wasanaeth ymweld o fferylliaeth	17%	11%	Os nad oes unrhyw wasanaeth ymweld â'r ward fel mater o drefn, gallai hyn awgrymu bod angen creu cysylltiadau gwell rhwng fferylliaeth a thimau'r wardiau.
% y wardiau â gwasanaeth ymweld 7 diwrnod	0%	5%	Mae gan y Bwrdd Iechyd fwy o wardiau heb unrhyw wasanaethau ymweld (17%) a llai o wardiau â gwasanaeth ymweld 7 diwrnod (0%) na chyfartaledd Cymru (11% a 5% yn eu trefn).
% argymhellion y tîm fferylliaeth sy'n arwain at newidiadau	88%	79%	Edrychwyd ar argymhellion a wnaed gan dimau fferylliaeth am fath a dos y cyffur a chyfrifwyd cyfran yr argymhellion hyn a ddilynwyd.
% y staff fferylliaeth a gytunodd neu a gytunodd yn gryf eu bod yn gallu dylanwadu ar ymddygiad rhagnodi meddygon a nyrsys	59%	68%	Os na all staff fferylliaeth ddylanwadu ar ragnodwyr, mae hyn yn awgrymu y dylid cryfhau'r berthynas.

55. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos, yn ystod ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol, bod yr amser cyfartalog a dreuliyd ar y ward fesul ymweliad yn uchel ar bedair o wardiau'r Bwrdd Iechyd ac yn gymharol isel ar y ddwy arall. Roedd nifer y cleifion a adolygwyd fesul awyr yn gymharol isel ar Ward Bedwas yn Ystrad Fawr a ward D1W yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Efallai fod nifer y cleifion a adolygwyd fesul awr yn adlewyrchu effeithlonrwydd gwaith y tîm fferylliaeth ond gallai hefyd ddynodi'r gwahanol gymysgedd achosion ymhlith cleifion ar wardiau penodol. Lle mae'r gyfradd adolygu'n uwch, ceir perygl nad yw timau fferylliaeth yn treulio digon o amser gyda phob claf unigol. Fe'n hysbyswyd gan rai staff fferylliaeth yn ystod ein gwaith maes bod pwysau llwyth gwaith yn golygu nad oes ganddynt ddigon o amser i gynnal adolygiadau cynhwysfawr o gleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith i ddeall y data hyn.


Arddangosyn 6: Cymhariaeth ledled Cymru o'r amser y treuliodd timau fferylliaeth ar y wardiau fesul ymweliad a nifer y cleifion iddynt eu hadolygu fesul awr



Ffynhonnell: Adolygiaeth fferylliaeth glinigol Swyddfa Archwilio Cymru

56. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos manylion llwythi gwaith timau fferylliaeth, yn ystod ein hymweliadau sampl â wardiau, o ran y cyflenwad o feddyginiaethau. Cofnodwyd tri math o gyflenwad gennym: cyflenwad meddyginiaethau i gleifion mewnol, cyflenwad meddyginiaethau 'i'w cymryd allan' pan ddisgwylir i gleifion gael eu rhyddhau, a chyflenwad o systemau dosiau wedi'u monitro, sy'n focsys aml-adran i helpu cleifion gofio pa feddyginiaethau i'w cymryd. Mae'r arddangosyn yn dangos bod timau fferylliaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn treulio cyfran fwy o'u hamser yn cyflenwi bocsys aml-adran ac fe'n hysbyswyd mewn cyfweiliad bod y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â bocsys aml-adran yn cynyddu. Mae'r arddangosyn hefyd yn dangos bod timau yn Ysbyty Nevill Hall yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd yn cyflenwi meddyginiaethau i'w cymryd allan i gleifion Powys. Efallai y bydd y Bwrdd Iechyd yn dymuno gwneud rhagor o waith i ddeall y data hyn, ond mae'r gwahanol gymysgedd achosion ymhlith cleifion ym mhob ysbyty yn debygol o fod yn un ffactor cyfrannol.

Arddangosyn 7: Mae cyflenwi meddyginiaeth i fynd adref yn cynrychioli cyfran fwy o'r gweithgarwch fferylliaeth yn Ysbyty Nevill Hall tra ei bod yn ymddangos bod y cyflenwad o focsys aml-adran yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn amlach na'r cyfartaledd ledled Cymru



Ffynhonnell: Adolygiad Fferylliaeth Glinigol Swyddfa Archwilio Cymru (ymweliad ward)

57. Mae rowndiau ward yn ffordd y gall fferyllwyr weithio'n agos â gweddill y tîm amlddisgyblaeth i gyfrannu at ofal cleifion. Mae gwybodaeth a gesglir yn rhan o'r archwiliad yn dynodi bod lle i adolygu i ba raddau y mae fferyllwyr yn integreiddio ei hymweliadau â wardiau â rowndiau ward a gyflawnir gan feddygon. Mae ein canlyniadau o bob rhan o Gymru yn awgrymu bod lle i dimau fferylliaeth gymryd rhan mewn rowndiau ward yn amlach gan mai dim ond un y cant i'r ymweliadau a gofnodwyd yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol oedd yn rhan o rowndiau ward. Yn y Bwrdd Iechyd, nid oedd yr un o 125 ymweliad y tîm fferylliaeth â'r wardiau yn rhan o rowndiau ward. Fodd bynnag, roedd uwch fferyllwyr yn y Bwrdd Iechyd yn synnu at y canfyddiad hwn a dywedasant wrthym bod fferyllwyr yn mynychu rowndiau ward yn rheolaidd ar y wardiau Meddygol yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn ddi-ddorol, amlygodd ein harolwg wahanol safbwyntiau ar y datganiad 'Mae staff fferylliaeth glinigol yn cymryd rhan reolaidd mewn rowndiau ward amlddisgyblaeth'. Er bod 65 y cant o staff fferylliaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad, 36 y cant o feddygon oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.
58. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos safbwyntiau staff fferylliaeth ar sut y gallai eu timau fod yn fwy effeithiol ac yn cymharu eu safbwyntiau â rhai meddygon.

Arddangosyn 8: Safbwyntiau staff ar y posibilrwydd o wneud y tîm fferylliaeth yn fwy effeithiol

Blaenori aeth	Safbwyntiau staff fferylliaeth	Safbwyntiau meddygon
1 (Uchaf)	Cynyddu faint o amser sy'n cael ei dreulio ar y wardiau	Gwella/cyflwyno prosesau i gefnogi rhyddhad
2	Gwella parhad staff fferylliaeth sy'n cefnogi'r ward/cleifion	Cymryd rhan mewn rowndiau ward ar ôl i feddyginiaeth gael ei chymryd
3	Cymryd rhan mewn rowndiau ward ar ôl i feddyginiaeth gael ei chymryd	Gwella parhad staff fferylliaeth sy'n cefnogi'r ward/cleifion
4	Gwella/cyflwyno prosesau i gefnogi rhyddhad	Cynyddu faint o amser sy'n cael ei dreulio ar y wardiau
5	Newid amseriad yr ymweliadau rheolaidd â wardiau	Gwella/cyflwyno gwasanaeth ar-alwad
6	Gwella/cyflwyno gwasanaeth ar-alwad	Newid amseriad yr ymweliadau rheolaidd â wardiau

Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferylliaeth a Staff Meddygol

Oriau agor a mynediad at y gweithlu fferylliaeth

Mae gwasanaethau fferylliaeth yn hygyrch ac ymatebol yn gyffredinol, er bod oriau gwaith yn ystod diwrnodau nad ydynt ar benwythnosau yn llai na'r cyfartaledd a cheir lle i wella oriau gwaith y tu allan i oriau arferol, yn enwedig yn Ystrad Fawr

59. Dylai gwasanaethau fferylliaeth fod yn hygyrch i staff gofal iechyd ar yr adegau pan fo'u hangen fwyaf. Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol wedi amlygu problemau gydag argaeledd gwasanaethau fferylliaeth y tu allan i oriau gwaith arferol. Dywed y Gymdeithas y gall argaeledd cyfyngedig gwasanaethau fferylliaeth ysbytai, yn enwedig ar benwythnosau, arwain at fwy o achosion o fethu dosiau a chamgymeriadau gyda phresgripsiynau, diffyg cysoni meddyginiaethau ac arosiadau hirfaith am feddyginiaeth rhyddhau¹⁹.
60. Mae **Arddangosyn 9** yn dangos oriau agor gwasanaeth fferylliaeth y Bwrdd Iechyd o'u cymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru. Yn ogystal â'r oriau a ddangosir yn y tabl, mae tîm fferylliaeth y Bwrdd Iechyd ar gael ar-alwad bob amser, sydd hefyd yn wir yn yr holl fyrddau iechyd eraill yng Nghymru.

¹⁹ Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Seven Day Services in Hospital Pharmacy: Giving patients the care they deserve, 2014.

Arddangosyn 9: Mae oriau agor y gwasanaeth fferylliaeth ar ddiwrnodau nad ydynt ar y penwythnos yn is na chyfartaledd Cymru ac nid yw Ystrad Fawr yn cynnig gwasanaeth damweiniau ac achosion brys/cleifion allanol ar benwythnosau fel mater o drefn

Ysbyty	Cyfanswm yr oriau y mae ar agor ar gyfer damweiniau ac achosion brys/cleifion allanol		Cyfanswm yr oriau y mae ar agor i ddarparu gwasanaethau clinigol i'r wardiau	
	Llun-Gwe	Sad-Sul	Llun-Gwe	Sad-Sul
Ysbyty Brenhinol Gwent	38	5	38	5
Nevill Hall	38	5	38	5
Ystrad Fawr	38	0*	38	5
Cyfartaledd Cymru	42	5	43	4

Ffynhonnell: Dull Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru. * Nid oes adran damweiniau ac achosion brys yn YYF.

61. Mae gan y Bwrdd lechyd wasanaeth fferylliaeth ddydd Sadwrn a dydd Sul. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaethau fferylliaeth a sut i'w diwallu. Y casgliadau o'r gwaith hwn yw nad yw gwasanaeth saith diwrnod yn fforddiadwy nac yn angenrheidiol. Fe'n hysbyswyd mewn cyfweiliadau mai cynllunio rhyddhad effeithiol a pheiriannau gwerthu ar gyfer presgripsiynau yw'r hyn sydd wedi ei angen i sicrhau gwasanaethau fferylliaeth effeithiol ar benwythnosau.
62. Yn ein harolwg, gofynnwyd i staff meddygol am eu barn ar argaeledd gwasanaethau fferylliaeth yn ystod oriau arferol a'r tu allan i oriau gwaith arferol. Roedd 82 y cant o feddygon yn y Bwrdd lechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'n rhwydd cysylltu â'r tîm fferylliaeth yn ystod oriau gwaith arferol' (85 y cant oedd y ffigur cyfatebol ledled Cymru). Pan ofynnwyd iddynt am y datganiad 'Mae'n rhwydd cysylltu â'r tîm fferylliaeth y tu allan i oriau gwaith arferol' roedd 29 y cant o feddygon²⁰ yn y Bwrdd lechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (o'i gymharu â 30 y cant ledled Cymru).
63. Gofynnwyd i staff meddygol am eu barn ar ymatebrwydd y tîm fferylliaeth hefyd. Roedd 80 y cant o feddygon yn y Bwrdd lechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb mewn cyfnodau rhesymol i'm ceisiadau yn ystod oriau gwaith arferol' (sydd yr un fath â'r ffigur ar gyfer Cymru). Pan ofynnwyd iddynt am y datganiad 'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb mewn cyfnodau rhesymol i'm ceisiadau y tu allan i oriau gwaith arferol', roedd 29 y cant o feddygon²¹ yn y Bwrdd lechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, sydd yr un fath â'r ffigur ar gyfer Cymru.

²⁰ Atebodd un o bob tri meddyg 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

²¹ Atebodd 40 y cant o feddygon 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

-
- 64.** Yn ystod ein teithiau cerdded ar wardiau, fe'n hysbyswyd gan staff nyrsio am fynediad cyffredinol dda at y tîm fferylliaeth yn ystod oriau gwaith arfer a'r tu allan i oriau. Fodd bynnag, yn Ystrad Fawr dywedwyd bod diffyg argaeledd meddyginiaethau o'r peiriant gwerthu y tu allan i oriau yn broblem reolaidd, gan fod rhaid anfon ceisiadau i Ysbyty Brenhinol Gwent drwy'r ffacs wedyn, ac yna anfon y feddyginiaeth i Ystrad Fawr mewn tacsî. Clywsom safbwyntiau cadarnhaol ar system archebion wardiau (WOREQ) sy'n galluogi staff ward i archebu meddyginiaethau ar-lein o'r fferyllfa ac yn caniatáu mynediad i staff at feddyginiaethau penodol o wardiau eraill yn yr ysbyty os yw'r fferyllfa wedi cau.

Rhan 3

Cyfleusterau rheoli meddyginiaethau

Mae cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â mwyafrif y gofynion allweddol ond ceir rhai problemau yn gysylltiedig â diogelwch a storio yn yr ardal fferylliaeth ac ar y wardiau

Cydymffurfiad â gofynion allweddol ar gyfer cyfleusterau fferylliaeth

Mae cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol ar y cyfan, ond ceir problemau gyda diogelwch ffiniau a storio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, yn ogystal â larymau oergell y tu allan i oriau yn Ystrad Fawr

65. Mae Nodyn Adeilad Iechyd Cymru²² yn disgrifio'r gofynion allweddol ar gyfer dyluniad, cynllun a chyfleusterau fferyllfeydd ysbyty. Mae'r tabl isod yn dangos y gofynion mewn teip italig ac yn dangos a yw cyfleusterau Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG), Ysbyty Nevill Hall (YNH), Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) yn cydymffurfio (☑), yn cydymffurfio'n rhannol (☐) neu ddim yn cydymffurfio (☒).

Canfyddiadau

Lleoliad

A yw'r fferyllfa ar y llawr gwaelod ac yn hawdd ei chyrraedd o'r prif goridorau/llwybrau dosbarthu?

☐ YBG: Mae'r fferyllfa ar yr ail lawr ar waelod y prif goridor yn agos at y prif lifftiau.

☑ YNH: Mae'r fferyllfa yn agos iawn at yr adran damweiniau ac achosion brys ac yn rhwydd dod o hyd iddi.

☑ YYF: Mae'r fferyllfa ar brif goridor ar lefel 1 ac yn hygyrch drwy'r lifft wrth fynedfa 3.

Diogelwch ffiniau

A yw mynedfa'r fferylliaeth wedi'i rheoli'n gadarn drwy ddefnyddio cardiau allwedd neu system debyg?

☒ YBG: Ceir mynediad pad bysellau rhif wrth y fynedfa. Fe'n hysbyswyd bod llawer o bobl yn ymwybodol o'r rhif cod; mewn digwyddiad diweddar, rhoddwyd y cod i ddau aelod o staff contractwyr heb awdurdod ac aethant i mewn heb ganiatâd. Gwrthodwyd ymdrechion i gael system cardiau allwedd. Nid oedd cilfan lwytho'r fferyllfa ar glo pan ymwelodd yr archwilydd.

☑ YNH: Ceir mynediad pad bysellau rhif wrth y fynedfa.

☑ YYF: Ceir mynediad cerdyn allwedd wrth bob mynedfa.

A gymerwyd camau i wirio pwy oedd yr archwilydd pan gyrhaeddodd y fferyllfa?

☑ YBG: Gofynnwyd i'r archwilydd i fewngofnodi, ond ni ofynnwyd am brawf adnabod.

☑ YNH: Fe wnaeth yr archwilydd gyfarfod â'r prif fferylllydd yn y fferyllfa ond ni ofynnwyd am brawf adnabod.

☑ YYF: Fe wnaeth yr archwilydd gyfarfod â'r fferylllydd ond ni ofynnwyd am brawf adnabod.

²² Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru, Pharmacy and radiopharmacy facilities, Nodyn Adeilad Iechyd Cymru WHBN 14-01, 2014

Canfyddiadau

Man storio a thymheredd

A oedd pob eitem wedi'i storio uwchlaw lefel y llawr?

YBG: Caiff eitemau eu storio mewn coridorau cyhoeddus, ac mewn bocsys ar y llawr yn yr ystafelloedd stoc. Roedd yr eitemau hyn yn cynnwys hylifau mewnwythiennol.

YNH: Caiff eitemau eu storio mewn oergelloedd neu eu rhoi yn y fferyllfa gan robot.

YYF: Caiff eitemau eu storio uwchlaw lefel y llawr.

A oes trefniadau da i reoleiddio'r tymheredd o dan 25 gradd, yn enwedig mewn manau a ddefnyddir i storio eitemau swmp?

YBG: Nid yw'r ystafell hylifau swmp wedi'i haerdymheru, ni reoleiddir ei thymheredd, ac mae'n boeth ar adegau o ganlyniad. Codwyd hyn fel risg. Efallai fod risgiau cyfreithiol i'r trefniadau hyn gan fod yr hylifau'n cael eu storio dan amodau nad ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau'r gweithgynhyrchydd ar reoleiddio tymheredd.

YNH: Ceir aerdymheru trwy gydol yr ardaloedd fferylliaeth (ac eithrio swyddfeydd). Cedwir y tymheredd yn is na 25 gradd.

YYF: Caiff y tymheredd yn y manau storio ei aerdymheru a'i reoli'n ganolog yn yr ysbyty.

Cyffuriau rheoledig

A oes storfa ar wahân â larwm, y gellir ei chloi, ar gyfer cyffuriau rheoledig?

YBG: Cedwir cyffuriau rheoledig mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Mae hwn wedi'i leoli mewn ystafell ar wahân. Er ei fod yn arfer da cadw'r ystafell hon ar glo, nid oedd wedi'i chloi pan ymwelodd yr archwilydd. Ceir larwm sy'n rhybuddio'r heddlu a staff diogelwch yn y nos.

YNH: Cedwir cyffuriau rheoledig mewn cypyrddau wedi'u cloi, wedi'u clymu i'r wal gyda chadwyn. Nid oes larwm.

YYF: Cedwir y cyffuriau rheoledig mewn cypyrddau wedi'u cloi a cheir larwm yn y fferyllfa hon.

Oergelloedd

A oes dangosydd tymheredd allanol ar bob oergell yn y fferyllfa? Ac a oedd y dangosyddion hyn yn dangos darlenniadau rhwng dwy ac wyth gradd?

YBG, NHH ac YYF: Ceir dangosydd allanol ar bob oergell. Ni ddefnyddir yr oergell yn y robot rhoi meddyginiaeth yn YBG gan fod y tymheredd yn cynyddu'n gyflym cyn gynted ag yr agorir y drws.

A yw tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson â system rhybuddio awtomatig (yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau gwaith) os aiff tymereddau allan o'r amrediad?

YBG: Caiff tymheredd ei fonitro gan gyfrifiadur sy'n sbarduno larwm os bydd yn mynd allan o'r amrediad am ddeng munud. Caiff y fferylllydd ar-alwad ei flîpio'n awtomatig os oes problem y tu allan i oriau.

YNH: Ceir system fonitro sydd wedi'i chysylltu â dangosydd canolog, ac sy'n gallu cynnig gwybodaeth am bob oergell benodol. Ceir larwm ar bob oergell. Mae'r fferylllydd ar-alwad yn derbyn galwad ffôn yn awtomatig os oes problem y tu allan i oriau. Fe'n hysbyswyd nad yw fferyllwyr ar-alwad o reidrwydd yn ymateb i larymau ar gyfer cyffuriau rhad. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a oes ymateb bob amser pan fo angen cadw cyffuriau o fewn yr amrediad tymheredd cywir.

YYF: Ceir larymau ar yr oergelloedd sy'n seinio yn y fferyllfa os bydd y tymheredd yn mynd allan o'r amrediad. Nid oes unrhyw rybudd i staff y tu allan i oriau; fe'n hysbyswyd y collwyd gwerth £17,000 o gyffuriau flwyddyn yn ôl pan fethodd un o'r oergelloedd.

Canfyddiadau

A oes modd cloi pob oergell yn y fferyllfa?

- YBG: Mae modd cloi pob oergell ond nid oedd llawer wedi'u cloi pan ymwelodd yr archwilydd.
- YNH: Mae modd cloi pob oergell ond nid oedd llawer wedi'u cloi pan ymwelodd yr archwilydd gan eu bod mewn man diogel.
- YYF: Mae modd cloi pob oergell, er na ellid dod o hyd i'r allweddi pan ofynnodd yr archwilydd.

Storfa meddyginiaeth argyfwng

A oes storfa benodol lle gellir cael gafael ar feddyginiaethau pan nad oes staff yn y fferyllfa?

- YBG: Gall y fferyllfeydd ar-alwad roi meddyginiaeth o gartref gan ddefnyddio'r robot rhoi meddyginiaeth. Ceir peiriannau gwerthu mewn 15 lleoliad yn YBG.
- YNH: Ceir peiriant gwerthu yn yr uned frys sy'n cynnig tabledi unigol a meddyginiaethau i'w defnyddio ar unwaith.
- YYF: Ceir cwpwrdd mawr y gellir cerdded i mewn iddo lle caiff eitemau hanfodol eu storio. Ceir robot yn yr uned derbyniadau meddygol sy'n gallu rhoi eitemau i staff, gan ddefnyddio dull adnabod olion bysedd.

A oes system glir i gofnodi pa eitemau sydd wedi'u cymryd o'r storfa argyfwng?

- YBG: Ceir trywydd archwilio cyfrifiadurol.
- YNH: Mae'r peiriant gwerthu yn cofnodi pa gyffuriau a gymerwyd â chan bwy.
- YYF: Mae'r staff yn llenwi ffurflenni ar gyfer yr eitemau a gymerir. Mae'n rhaid i'r fferyllfa gynnal cyfrif stoc yn achlysurol gan nad yw'r ffurflenni'n cael eu llenwi bob amser.

Dosbarthfa

A oes gan y ddosbarthfa feinciau ac arwynebau gwaith o liw sy'n wahanol i labeli meddyginiaeth gwyn?

- YBG: Mae arwynebau'n llwyd brith.
- YNH: Mae arwynebau'n llwyd tywyll.
- YYF: Mae arwynebau'n llwyd golau.

A oes gan y ddosbarthfa gyfleusterau golchi dwylo pwrpasol?

- YBG, YNH, YYF: Ceir cyfleusterau golchi dwylo pwrpasol ym mhob safle.

Ffynhonnell: Arsyllwadau Swyddfa Archwilio Cymru o fferyllfeydd ysbyty

Paratoi unedau aseptig a meddyginiaethau i'w chwistrellu

Rhodddwyd marc risg sylweddol i uned aseptig Nevill Hall gan arolygwyr allanol ac, yn gyffredin â gweddill Cymru, nid yw paratoad meddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau yn cael ei archwilio'n rheolaidd

- 66.** Cyfleusterau aseptig yw unedau di-haint a ddefnyddir i baratoi rhai meddyginiaethau sy'n peri risg uchel megis pigladau cemotherapi, porthiannau mewnythiennol i fabanod cynnar a rhai gwrthfotigau. Caiff unedau o'r fath eu harolygu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Gofal Iechyd Meddyginiaethau. Arolygwyd Uned Gynhyrchu Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Mehefin 2013 a daeth yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Gofal Iechyd Meddyginiaethau i'r casgliad bod gweithrediadau'n cydymffurfio'n gyffredinol ag egwyddorion a chanllawiau arfer gweithgynhyrchu da. Ni chododd yr arolygiad unrhyw fethiannau 'critigol' ond amlygwyd dau fethiant 'mawr'. Roedd y prif fethiant mawr yn ymwneud â diffygion y system rheoli ansawdd, gan nodi nad oedd unrhyw adolygiad rheoli ansawdd cyfnodol yn cynnwys uwch reolwyr. Roedd yr ail fethiant mawr yn ymwneud â diffygion o ran cymwysterau a hyfforddiant staff yr uned. Mae unedau aseptig yng Nghymru hefyd yn cael eu harolygu gan Fferyllydd Sicrhau Ansawdd Cymru Gyfan. Arolygwyd y cyfleusterau aspectig yn Adran Fferylliaeth Ysbyty Nevill Hall ddiwethaf gan Fferyllydd Sicrhau Ansawdd Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2012. Y casgliad cyffredinol oedd bod gan yr uned offer priodol a'i bod yn cael ei rheoli'n dda. Fodd bynnag, codwyd marc risg yr uned o isel i arwyddocaol gan nad yw system yr uned ar gyfer cynhyrchu taflenni gwaith a labeli llwyth yn cydymffurfio â safonau cyfredol.
- 67.** Mae rhai meddyginiaethau ar gyfer pigladau'n cael eu paratoi ar y wardiau. Dylai'r prosesau paratoi hyn fod yn destun archwiliadau blynyddol²³ ond ledled Cymru gwelsom nad yw archwiliadau o'r fath yn cael eu cynnal yn aml. Roedd y Bwrdd Iechyd yn un o dri a oedd yn methu cadarnhau sawl ward oedd ag asesiad risg ar waith ar gyfer paratoi meddyginiaethau i'w rhoi mewn pigladau, na sawl ward oedd wedi cynnal archwiliad o arferion aseptig yn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd pedwerydd bwrdd iechyd nad oedd dim asesiadau risg nac archwiliadau wedi'u cynnal.

Cyfleusterau ar gyfer storio meddyginiaethau ar y wardiau

Mae storio a diogelwch ar wardiau yn parhau i beri problemau er i'r staff ddweud bod storio wedi gwella yn y manau hynny lle cyflwynwyd peiriannau gwerthu

- 68.** Tynnodd yr hapwiriadau Ymddiried mewn Gofal sylw at faterion ledled Cymru yn ymwneud â storio meddyginiaethau'n saff a diogel ar wardiau ysbytai. Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r hapwiriadau yn y Bwrdd Iechyd:
- Ysbyty Brenhinol Gwent: Nid oedd gan ddwy ward unrhyw broblemau gyda manau neu droliâu paratoi meddyginiaeth. Roedd ystafell driniaeth y drydedd ward yn cael ei defnyddio fel ystafell ddydd ac roedd problemau gyda storio meddyginiaethau mewn cypyrddau. Roedd cypyrddau meddyginiaeth heb eu cloi a throliâu meddyginiaeth nad oeddent wedi'u cloi at y wal ar y bedwaredd ward, er bod pad allwedd ar ddrws yr ystafell driniaeth.
 - Ysbyty Nevill Hall: Roedd dwy ward yn defnyddio troliâu amhriodol na ellid eu cloi ar gyfer meddyginiaethau ond y gwelwyd hefyd iddo gael ei adael heb ei oruchwyllo. Roedd problemau

²³ Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, Patient safety alert 20, 28 Mawrth 2007

hefyd gydag ystafelloedd triniaeth heb eu cloi ar bob ward a gwelodd yr arolygwyr feddyginiaethau yn cael eu gadael heb eu goruchwyllo.

- Ystrad Fawr: Roedd trolïau meddygol ac ystafelloedd triniaeth i gyd yn ddiogel er bod problemau o ran rhai meddyginiaethau a adawyd allan.
- 69.** Fe'n hysbyswyd yn ystod cyfweiliad bod storio a diogelwch meddyginiaeth ar wardiau yn dal i beri pryder mawr. Caiff ystafelloedd storio eu gadael heb eu cloi'n aml ac mae stoc yn anhrefnus.
- 70.** Gall cyflwyno peiriannau gwerthu awtomatig i storio a darparu meddyginiaethau ar y wardiau wella diogelwch a thrywyddion archwilio a gall ryddhau amser staff fferylliaeth a nyrsio. Ceir peiriannau gwerthu awtomatig ar ddeg y cant o wardiau'r Bwrdd Iechyd, o'i gymharu â chyfartaledd o wyth y cant ledled Cymru. Fe'n hysbyswyd gan saff ward eu bod yn credu bod manteision amrywiol i beiriannau gwerthu wardiau, gan gynnwys storio gwell a helpu i leihau camgymeriadau cyffuriau.
- 71.** Canfu ein hadolygiad fferylliaeth glinigol mai dim ond 77 y cant o'r cleifion a adolygwyd oedd â chwprdd y gellir ei gloi a oedd yn gweithio. Mae hyn yn cymharu â 94 y cant ledled Cymru. Roedd gan y Bwrdd Iechyd y ffigur hwn oherwydd y sefyllfa ar Ward D4W yn Ysbyty Brenhinol Gwent i raddau helaeth, lle nad oes unrhyw gypyrddau y gellir eu cloi. Roedd cypyrddau y gellir eu cloi ar gyfer pob claf ar bob ward ond tair.
- 72.** Fe'n hysbyswyd bod gwaith ar y cyd ar y gweill rhwng staff fferylliaeth a nyrsio i gynnig sicrwydd bod y materion a nodwyd yn Ymddiried mewn Gofal yn cael sylw. Datblygwyd pecyn cymorth ward sy'n adeiladu ar y fethodoleg gysylltiedig â meddyginiaethau a ddefnyddiwyd yn hapwiriadau Ymddiried mewn Gofal. Bydd y wardiau'n defnyddio'r pecyn cymorth ar gyfer hunanasesu a bydd y pecyn cymorth hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ystod rhaglen o ymweliadau uwch nyrsys â'r wardiau.

Rhan 4

Prosesau rheoli meddyginiaethau

Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau da ar gyfer cefnogi rhyddhad ond ceir problemau gyda chysoni cyffuriau, cofnodi statws alergedd, dosiau a hepgorwyd a chefnogi cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n iawn

Gwybodaeth dderbyn gan feddygon teulu

Mae trosglwyddo gwybodaeth gwael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn achosi risgiau diogelwch ac aneffeithlonrwydd

73. Mae'r rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn uchel ei risg o ran rheoli meddyginiaethau. Pan gaiff cleifion eu derbyn, gall cyfathrebu da rhwng y feddygfa deulu a'r ysbyty atal camgymeriadau ac anghywirdebau ynghylch meddyginiaethau pobl.
74. Mae **Arddangosyn 10** yn dangos asesiad y tîm fferylliaeth o ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan ofal sylfaenol i ategu derbyniadau, a gynhaliwyd yn ystod ein hadolygiad fferylliaeth glinigol. Yn y Bwrdd Iechyd ar y cyfan, roedd canran y cleifion heb ddim gwybodaeth yn debyg i'r hyn yng ngweddill Cymru. Roedd y proffiliau o ba mor gynhwysfawr yw gwybodaeth yn dangos amrywiad rhwng safleoedd ysbyty²⁴.

Arddangosyn 10: Roedd canran y cleifion heb ddim gwybodaeth gofal sylfaenol uchaf yn Nevill Hall, ond pan roedd gwybodaeth ar gael i gleifion ar y safle hwn roedd yn fwy tebygol o fod yn gynhwysfawr. Anaml yr oedd gwybodaeth cleifion yn Ystrad Fawr yn gynhwysfawr

	Dim gwybodaeth	Gwybodaeth gyfyngedig	Gwybodaeth safonol	Gwybodaeth gynhwysfawr
Nevill Hall	55%	5%	0%	41%
Ysbyty Brenhinol Gwent	29%	21%	21%	29%
Ystrad Fawr	35%	29%	29%	6%
Aneurin Bevan	42%	17%	15%	26%
Cyfartaledd Cymru	41%	18%	20%	22%

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol (cofnodion claf 155 o gleifion)

Sylwer: Y dewisiadau oedd 'Dim gwybodaeth/methu dod o hyd i wybodaeth yn y nodiadau', 'Gwybodaeth gyfyngedig: yn cynnwys hanes cyffuriau anghyflawn', 'Gwybodaeth safonol: yn cynnwys hanes cyffuriau cyflawn', Gwybodaeth gynhwysfawr: yn cynnwys hanes cyffuriau cyflawn gan gynnwys gwybodaeth glinigol ategol a chanlyniadau profion perthnasol.

²⁴ Dim ond y cleifion a adolygwyd yn yr adolygiad fferylliaeth glinigol a dderbyniwyd drwy feddyg teulu sydd wedi'u cynnwys yn y data hyn, felly mae Arddangosyn 10 yn cynnwys data 53 o gleifion Aneurin Bevan a 362 o gleifion ledled Cymru.

-
- 75.** Yn ein harolwg, roedd 39 y cant o feddygon ysbyty a 27 y cant o staff fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod gwybodaeth dderbyn ar gyfer cleifion dewisol yn ddigonol. Roedd yr ymatebion yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru. Ar gyfer cleifion brys, dim ond 19 y cant o feddygon ysbyty a 18 y cant o staff fferylliaeth oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad ei bod '...yn rhwydd cael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig/electronig ddigonol am feddyginiaeth bresennol cleifion'. Roedd y canlyniadau hyn ychydig yn uwch na'r rhai ledled Cymru, lle'r oedd 11 y cant o feddygon ac 11 y cant o staff fferylliaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad.
- 76.** Mae problemau gyda throsglwyddo gwybodaeth am feddyginiaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn parhau i fod yn faes risg i'r Bwrdd Iechyd. Er y gall y wybodaeth fod yn dda iawn weithiau, cydnabuwyd gan staff uwch ei bod yn aml yn wael neu'n absennol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff ysbyty gysylltu â meddygfeydd i gael gwybodaeth. Er y gall y Cofnod Iechyd Unigol ddarparu gwybodaeth dda ar yr adeg gywir weithiau, fe'n hysbyswyd nad yw'n cael ei ddefnyddio bob tro gyda phob calf ar hyn o bryd.
- 77.** Pan fydd cleifion yn cyrraedd yr ysbyty heb lawer o wybodaeth am eu meddyginiaethau, bydd timau fferylliaeth yn aml yn ffonio meddygfeydd teulu i sicrhau hanes cyffuriau claf. Mae'r Cofnod Iechyd Unigol (CIU) yn system electronig sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth y mae meddygon teulu'n ei chadw am eu cleifion. Mae cynllun peilot o'r system CIU ar gyfer cysoni meddyginiaethau yn cael ei gynnal mewn pedwar lleoliad brys ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan²⁵, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r system CIU yn caniatáu mynediad uniongyrchol i fferyllwyr at wybodaeth meddygon teulu am feddyginiaethau cleifion. Mae gwerthusiadau yng Nghaerdydd a'r Fro yn awgrymu bod defnyddio CIU yn arbed saith munud o amser y fferyllfa ar gyfartaledd i bob claf. Gan ddefnyddio'r arbediad amcangyfrifol hwn o saith munud, pe bai CIU wedi'i ddefnyddio ar gyfer hanner y 69,731 o dderbyniadau brys yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14, gallai hyn fod wedi arbed tua 4,100 awr o amser y fferyllfa, sy'n gywerth â 2.3 aelod staff fferylliaeth cyfwerth ag amser llawn²⁶. Ac ystyried yr arbedion amser a'r gwelliannau diogelwch sylweddol a allai fod yn bosibl drwy CIU, ar y wardiau ac mewn meddygfeydd teulu, mae'n bwysig cyflwyno CIU cyn gynted â phosibl.

²⁵ Mae'r cynllun peilot CIU yn cael ei gynnal yn yr uned derbyniadau meddygol, yr uned penderfyniadau clinigol a wardiau D1 a D2.

²⁶ Mae'r cyfrifiad hwn yn cymharu'r sefyllfa lle defnyddir CIU ar gyfer 50 y cant o dderbyniadau brys, â'r sefyllfa lle na chaiff CIU ei ddefnyddio ar gyfer dim derbyniadau brys. Mae hefyd yn tybio bod un CALI yn gweithio 37.5 awr yr wythnos, 47 wythnos y flwyddyn.

Cysoni ac adolygu meddyginiaethau yn yr ysbyty

Roedd canran y cleifion a chysoniad meddyginiaethau prydlon ychydig yn is na'r cyfartaledd ac roedd amrywiad ar draws safleoedd o ran cyfran y cleifion a oedd wedi derbyn adolygiad meddyginiaeth cynhwysfawr

- 78.** Proses wirio yw cysoni meddyginiaethau, yn aml dan arweiniad fferylllydd, i sicrhau, pan fydd claf yn symud i mewn neu allan o'r ysbyty, bod gwybodaeth gywir a chyflawn am feddyginiaeth yn ei ddilyn. Mae'r Safonau'n nodi, o fewn 24 awr ar ôl derbyn cleifion, y dylid adolygu neu 'gysoni' eu meddyginiaethau i osgoi newidiadau anfwriadol i'w meddyginiaeth²⁷. O'r 155 o gleifion a adolygwyd fel rhan o'n hadolygiad fferylliaeth glinigol, lle'r oedd dyddiad cysoni meddyginiaeth wedi'i gofnodi, roedd meddyginiaeth 87 ohonynt (56 y cant) wedi'i chysoni o fewn un diwrnod ar ôl eu derbyn²⁸. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 64 y cant ledled Cymru. Yn dilyn ein gwaith maes, darparodd y Bwrdd Iechyd ddata o archwiliad diogelwch cleifion a oedd yn cynnwys tua 450 o gleifion y mis, ar draws bob un o safleoedd aciwt y sefydliad. Roedd y data'n dangos, rhwng Mehefin 2014 a Chwefror 2015, bod canran y cleifion y cysonwyd eu meddyginiaethau o fewn 24 awr o'u derbyn yn amrywio o 76 y cant i 82 y cant.
- 79.** Yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty, dylid adolygu meddyginiaethau cleifion yn rheolaidd. Fel ymateb i'n harolwg, roedd 77 y cant o staff fferylliaeth a 64 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae cleifion yn cael adolygiadau meddyginiaeth (gan unrhyw aelod o'r tîm amlddisgyblaeth) yn aml yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty'. Yng Nghymru gyfan, 65 y cant oedd y ffigur ar gyfer staff fferylliaeth a 67 y cant ar gyfer meddygon. Dangosodd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol mai fferyllwyr sy'n cynnal yr adolygiadau meddyginiaeth hyn i gyd bron, ac mai dim ond chwech y cant ledled Cymru gafodd eu cynnal gan feddygon. Mae **Arddangosyn 11** yn crynhoi'r data allweddol ar adolygiadau meddyginiaeth o'n hadolygiad fferylliaeth glinigol.

Arddangosyn 11: Derbyniodd mwyafrif y cleifion yn Ystrad Fawr adolygiad meddyginiaeth cynhwysfawr.

Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, nododd cyfran uchel o adolygiadau gleifion â phroblem cydymffurfio neu gyffuriau

	Nevill Hall	Ysbyty Brenhinol Gwent	Ystrad Fawr	Cymru
% y cleifion a gafodd adolygiad meddyginiaeth cynhwysfawr	34%	24%	85%	44%
% yr adolygiadau lle canfuwyd mater cydymffurfio neu fater cyffuriau	12%	57%	12%	20%

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol (cofnodion claf 155 o gleifion). Yn y Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd, cafodd 59 o gleifion adolygiad lefel D cynhwysfawr (Adolygiad llawn sy'n cynnwys cofnodi hanes cyffuriau, adolygiad o hanes a nodiadau clinigol a thrafodaeth gyda'r claf ar gytundeb), cafodd 91 adolygiad lefel C (cymerwyd hanes cyffuriau ac fe'i gwiriwyd ar gyfer unrhyw broblemau yn erbyn nodiadau clinigol) a chafodd 5 adolygiad lefel B (Cymerwyd hanes cyffuriau).

²⁷ Y Ganolfan Rhagnodi Genedlaethol, Medicines reconciliation: A guide to implementation

²⁸ Mae'r ffigur yn cynrychioli cleifion â dyddiad adolygu meddyginiaeth naill ai ar yr un diwrnod y'u derbyniwyd neu'r diwrnod canlynol.

Siartiau rhoi meddyginiaethau

Mae ein harchwiliad wedi canfod problemau gyda chofnodi statws alergedd cleifion ac roedd yn ofynnol i'r tîm fferylliaeth ddiweddarau statws alergedd cleifion yn llawer amlach nag ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd

- 80.** Mae'r broses rheoli meddyginiaethau mewn ysbyty'n dibynnu'n gryf ar gadw cofnodion diogel ac effeithiol. Dylai staff ddefnyddio siartiau cyffuriau i gofnodi pa feddyginiaethau a ragnodwyd i gleifion, y dosiau gofynnol ac i gofnodi'n eglur yr amseroedd pan roddwyd dosiau. Mae siart cyffuriau safonol wedi'i ddatblygu yng Nghymru, sef y Cofnod Rhoi Meddyginiaethau i Gleifion Mewnol, ac mae wedi'i gymeradwyo gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Dylid defnyddio siart arall, sef y Cofnod Rhoi Meddyginiaethau Arhosiad Hir, ar gyfer cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnodau hir. Canfu ein hadolygiad o siartiau cyffuriau yn y Bwrdd Iechyd fod y ffurflen safonol cleifion mewnol gan bob claf. Yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, roedd gan 93.3 y cant o gleifion y ffurflen safonol, roedd gan 6.4 y cant y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth i Gleifion Mewnol Arhosiad Hir ac roedd gan 0.3 y cant siart o fath ansafonol.
- 81.** Pa bynnag fath o siart cyffuriau a ddefnyddir, dylid cofnodi alergeddau'r claf a'i sensitifrwydd i feddyginiaethau. Mae adweithiau alergaidd yn risg difrifol i ddiogelwch cleifion ac yn ffynhonnell gyffredin o gamgymeriadau â chyffuriau. Canfu ein hadolygiad o siartiau cyffuriau yn y Bwrdd Iechyd fod statws alergeddau 90 y cant o gleifion wedi'i gofnodi ar y siart cyffuriau. Mae hyn yn cymharu â 98 y cant ledled Cymru. Yn dilyn ein gwaith maes, darparodd y Bwrdd Iechyd ddata o archwiliad diogelwch meddyginiaeth a oedd yn cynnwys tua 450 o gleifion bob mis, ar draws holl safleoedd aciwt y sefydliad. Roedd y data'n dangos, rhwng Mehefin 2014 a Chwefror 2015, bod canran y cleifion â statws alergedd wedi'i gofnodi yn amrywio o 98 y cant i 100 y cant.
- 82.** Nododd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol 141 achlysur pan ddiweddarwyd statws alergedd claf gan dimau fferylliaeth, sy'n cyfateb i 15 diwygiad ar gyfer pob 100 claf a adolygwyd. Hon oedd y gyfradd uchaf yng Nghymru o bell ffordd, lle'r oedd y cyfartaledd yn bum diwygiad ar gyfer pob 100 claf a adolygwyd. Uned Derbyniadau Brys Nevill Hall oedd y ward lle'r oedd timau fferylliaeth yn diweddarau statws alergedd cleifion amlaf. Canfuwyd 86 achlysur gennym pan roedd hyn wedi digwydd, sy'n cyfateb i 55 ar gyfer pob 100 claf.

Prosesau fformiwlari

Mae prosesau fformiwlari'r Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â gweddill Cymru yn gyffredinol ac mae ymarfer â llaw sy'n cymryd amser yn ofynnol i fonitro cydymffurfiad fformiwlari

- 83.** Fformiwlari yw rhestr bwrdd iechyd o feddyginiaethau a ffeirir y gall staff ei defnyddio fel dogfen gyfeirio i sicrhau rhagnodi diogel a chost-effeithiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd fformiwlari ar-lein electronig, sy'n defnyddio system rheoli fformiwlari (INFORM), a gyflwynwyd yn 2012 ac sydd ar gael i bob rhagnodwr. Mae ar gael trwy wefan y Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg. Serch hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael anawsterau i fonitro cydymffurfiad â'r fformiwlari oherwydd y diffyg rhagnodi electronig mewn gofal eilaidd. Mae hyn yn golygu bod angen gwneud gwaith â llaw i fonitro rhagnodi a chydymffurfiad â'r fformiwlari.

- 84.** Adroddodd ein hadolygiad rhagnodi gofal sylfaenol y gall meddygon teulu ddefnyddio ffurflen 'gwrthod pregripsiynu' pan fyddant yn pryderu bod clinigwyr gofal eilaidd yn rhagnodi y tu allan i bamedrau fformiwlari. Caiff y ffurflenni gwrthod rhagnodi eu monitro'n barhaus, a chaiff problemau eu nodi a'u rheoli gan fferyllwyr cyfarwyddiaeth a chyfarwyddwyr clinigol. Mewn ymateb i'r arolwg ar gyfer yr archwiliad hwn, dywedodd 48 y cant o staff meddygol eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y fformiwlari (a dogfennau/canllawiau ategol) yn diwallu eu hanghenion. Roedd hyn yn cymharu â 45 y cant ledled Cymru.
- 85.** Cafodd sefydliadau sgôr yn unol â nifer y mecanweithiau sydd ganddynt ar waith i rannu gwybodaeth â staff am newidiadau i'r fformiwlari²⁹. Cafodd y Bwrdd Iechyd 32 o bwyntiau o gyfanswm posibl o 50, o gymharu â chyfartaledd o 38 ledled Cymru. Y prif feysydd o wendid oedd y diffyg gwybodaeth fanwl am gyffuriau a oedd yn cael ei chynhyrchu a'i rhannu ymhlith grwpiau staff, ac absenoldeb cynrychiolwyr nyrsio i rannu penderfyniadau pwyllgor am newidiadau i'r fformiwlari.
- 86.** Cyhoeddir Fformiwlari Genedlaethol Prydain (y BNF) i ddarparu gwybodaeth gyson a chyfredol am feddyginiaethau i ragnodwyr, fferyllwyr, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'n bwysig bod y fersiwn diweddaraf o'r BNF ar gael yn rhwydd i staff ar y wardiau. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos canran y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiadau am y BNF pan fyddant ar y wardiau.

Arddangosyn 12: Rhoddodd staff meddygol yn y Bwrdd Iechyd safbwyntiau cadarnhaol ar gael mynediad at y BNF gan ddefnyddio cyfrifiadur

	Bwrdd Iechyd	Cymru
Mae copi caled o fersiwn diweddaraf y BNF ar gael yn rhwydd.	55%	60%
Mae'n hawdd i mi gael gafael ar y BNF ar gyfrifiadur	60%	40%
Rydw i'n tueddu i gael gafael ar y BNF ar ffôn clyfar	22%	22%

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o staff meddygol

Rhagnodi electronig

Nid oes trefn electronig ar gyfer rhagnodi yn cael ei defnyddio ar unrhyw wardiau ysbyty aciwt eto

- 87.** Rhagnodi electronig yw cynhyrchu, trosglwyddo a ffeilio presgripsiwn meddyginiaeth ar gyfrifiadur. Mae systemau rhagnodi electronig mewn gofal eilaidd yn gallu caniatáu trosglwyddo gwybodaeth yn gyflymach, yn fwy diogel ac yn fwy cost-effeithiol³⁰. Mae'r systemau hyn yn cynnig cyfle da iawn i ddylanwadu ar ymddygiad rhagnodi clinigwyr gofal eilaidd drwy atgyfnerthu blaenoriaethau rhagnodi'r Bwrdd Iechyd ac atgoffa staff ohonynt.
- 88.** Dywedodd byrddau iechyd ledled Cymru wrthym nad oes prosesau rhagnodi electronig ar waith yn unrhyw un o'u wardiau, a bod cynnydd o ran cyflwyno rhagnodi electronig yn dibynnu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mae rhai byrddau iechyd wrthi'n cyflwyno

²⁹ Roeddem yn ystyried a yw pwyllgorau'n rhannu eu penderfyniadau â staff, a ydynt yn rhannu bwletinâu, a ydynt yn rhannu gwybodaeth fanwl am bob cyffur, ac a ydynt yn diweddarau'r wefan.

³⁰ 1000 o Fwydau a Mwy, Cyflawni gofal iechyd darbodus yn GIG Cymru, Mehefin 2014

rhagnodi electronig mewn adrannau cleifion allanol ac yn mynd ati i geisio cyllid i gyflwyno rhagnodi electronig ar gyfer cleifion mewnol.

Rhagnodi anfeddygol

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau gwaith cadw cofnodion a rheolaethau ymhellach o ran presgripsiynau anfeddygol

89. Mae fferyllwyr dan hyfforddiant, nyrsys a staff anfeddygol eraill fel rhagnodwyr yn gallu ei gwneud yn haws i gleifion gael cyngor ac arbenigedd am feddyginiaethau a chyfrannu at waith tîm mwy hyblyg, gan arwain at ofal mwy llyfn³¹.
90. Roedd byrddau Iechyd ledled Cymru'n cael anhawster i ddarparu data cynhwysfawr i ni am nifer y rhagnodwyr anfeddygol o fewn eu staff, ac roeddent yn cael anhawster arbennig i roi nifer y staff hyn a oedd yn defnyddio eu sgiliau'n rheolaidd. Ledled Cymru, mae byrddau Iechyd yn dweud bod ganddynt rhwng 44 a 303 o ragnodwyr atodol. Darparwyd gwybodaeth gan bedwar bwrdd Iechyd am gyfran y nyrsys a'r fferyllwyr a oedd yn rhagnodi'n rheolaidd. Mae gan y Bwrdd Iechyd 107 o nyrsys a saith fferyllydd sy'n ragnodwyr annibynnol neu atodol. Mae chwe deg o'r nyrsys hyn a chwe fferyllydd yn rhagnodi'n rheolaidd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn un o bedwar na allai gadarnhau faint o weithwyr gofal Iechyd proffesiynol eraill oedd yn ragnodwyr anfeddygol cofrestredig.
91. Fel ymateb i'n harolwg, roedd 18 y cant o staff fferylliaeth a 24 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes rhagnodi anfeddygol yn defnyddio'r sgiliau hyn yn rheolaidd'³². Mae hyn yn cymharu â 29 y cant o staff fferylliaeth a 28 y cant o feddygon ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd, ysgrifennodd staff fferylliaeth bedwar presgripsiwn ar gyfer pob 100 o gleifion a adolygwyd³³. Hon oedd y gyfradd uchaf yng Nghymru, lle'r oedd y cyfartaledd yn 1.5 presgripsiwn ar gyfer pob 100 o gleifion a adolygwyd.
92. Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi cyfredol yn ymwneud â gwahanol agweddau ar ragnodi anfeddygol. Daeth i ben yn ddiweddar ac mae wrthi'n cael ei ddiweddarau. Mae **Arddangosyn 13** yn dangos sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu ag eraill yng Nghymru o ran polisïau rhagnodi anfeddygol.

³¹ Dim ond mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd y mae rhagnodwyr atodol yn gallu rhagnodi. Mae rhagnodwyr annibynnol yn gallu rhagnodi ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol o fewn eu maes cymhwysedd.

³² Atebodd un rhan o dair o'r staff fferylliaeth a 40 y cant o feddygon 'Ddim yn wybod' i'r cwestiwn hwn.

³³ Roedd y lefel gymharol uchel hon o ragnodi gan fferyllwyr oherwydd perfformiad yn Uned Derbyniadau Brys Nevill Hall yn bennaf, lle ysgrifennodd staff fferylliaeth 10 presgripsiwn ar gyfer pob 100 claf a adolygwyd.

Arddangosyn 13: Mae pob un o'r pedwar polisi allweddol hyn ar ragnodi anfeddygol ar waith gan y Bwrdd Iechyd

A yw'r polisiau hyn ar waith yn y Bwrdd Iechyd?	Y Bwrdd Iechyd hwn	Cymru
Meini prawf ar gyfer dewis staff i'w hyfforddi fel rhagnodwyr anfeddygol	Ydy	Ar waith mewn pum bwrdd Iechyd
Mecanwaith i gofnodi rhagnodwyr anfeddygol a rhannu'r rhestr hon â chyfarwyddiaethau priodol	Ydy	Ar waith ym mhob bwrdd Iechyd
Mecanweithiau cymorth i sicrhau bod rhagnodwyr anfeddygol yn cadw eu gwybodaeth	Ydy	Ar waith ym mhob bwrdd Iechyd
Gofynion cymhwysedd i aros yn gymwys fel rhagnodwr anfeddygol	Ydy	Ar waith mewn tri bwrdd Iechyd

Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru

93. Wrth ymateb i'n harolwg, roedd 14 y cant o staff fferylliaeth y Bwrdd Iechyd a 14 y cant o feddygon ledled Cymru yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaethau da ar waith i fonitro perfformiad rhagnodwyr anfeddygol'. Roedd 16 y cant o staff fferylliaeth a naw y cant o feddygon yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf³⁴. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym mai eu prif fecanwaith i fonitro cymhwysedd rhagnodwyr anfeddygol yw'r broses Adolygiad Datblygu Gwerthuso Personol. Caiff ei adolygu trwy broses cyflwyno portffolio blynyddol y Fframwaith Ymarferydd Uwch hefyd. Gellir nodi problemau mwy uniongyrchol trwy adolygiad fferylllydd o siartiau cleifion, hysbysu am ddigwyddiadau ac adolygiad ysbyty/cymuned o bresgripsiynau.

Rhoi meddyginiaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau uniongyrchol mewn ymateb i Ymddiried mewn Gofal er i ni ganfod cyfran gymharol uchel o achosion lle'r oedd yn aneglur a oedd dos wedi ei hepgor ai peidio

94. Roedd Ymddiried mewn Gofal yn tynnu sylw at broblemau difrifol â'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu rhoi a'u cofnodi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal hapwiriadau i ystyried y materion o Ymddiried mewn Gofal. Mae hefyd wedi cynnal gwerthusiad gan ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd 'Ymddiried mewn Gofal' Cymru Gyfan, ac wedi datblygu ei gynllun gweithredu lleol ei hun ar gyfer y materion hyn. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â pholisïau a safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau.
95. Fel ymateb i'n harolwg, roedd 79 y cant o staff fferylliaeth a 44 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae'r sefydliad wedi cymryd camau priodol o ran yr adroddiad Ymddiried mewn Gofal (Adroddiad Andrews)'. Mae hyn yn cymharu â 82 y cant o staff fferylliaeth a 34 y cant o feddygon ledled Cymru.

³⁴ Atebodd dwy ran o dair o feddygon a bron i hanner y staff fferylliaeth 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn.

-
- 96.** Mae Ymddiried mewn Gofal yn sôn am ddosiau hwyr a dosiau wedi'u hepgor, a phroblemau penodol â chleifion dryslyd ac ansymudol yn methu â chymryd eu tabledi heb oruchwyliaeth ac felly'n methu â chael eu meddyginiaeth ar amser, neu o gwbl. Gellir cyfiawnhau methu dos am rai rhesymau, megis os nad yw'r claf ar y ward i gymryd y feddyginiaeth. Fodd bynnag, weithiau caiff dosiau eu methu am nad yw'r cyffur ar gael ar y ward neu weithiau bydd cadw cofnodion gwael yn golygu nad yw'n glir o'r siart cyffuriau a yw dos wedi'i hepgor ai peidio. Mae'r olaf o'r rhain yn arbennig o beryglus oherwydd, pan nad yw'r siart cyffuriau wedi'i lenwi'n iawn, mae'n peri risg y gallai'r claf gael meddyginiaeth ddwywaith. Roedd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol yn rhoi sylw i 155 o gleifion dros gyfnod 24 awr ar draws chwe ward yn y Bwrdd Iechyd. Canfu'r archwiliad 37 achlysur pan nad oedd cyffur ar gael a 55 achlysur pan nad oedd yn glir a oedd dos wedi'i hepgor ai peidio.
- 97.** Mae **Arddangosyn 14** yn dangos y rhesymau am ddosiau wedi'u methu a gofnodwyd ar y siartiau cyffuriau yn y Bwrdd Iechyd, ac yn cymharu hyn â'r sefyllfa ledled Cymru. Mae'r arddangosyn yn dangos canran gymharol uchel o achosion lle nad oedd yn eglur a oedd dos wedi'i hepgor ai peidio, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Roedd canran gymharol uchel o achosion yn Ystrad Fawr hefyd lle nad oedd y feddyginiaeth ar gael. Yn dilyn ein gwaith maes, darparodd y Bwrdd Iechyd ddata o archwiliad diogelwch meddyginiaeth a oedd yn cynnwys tua 450 o gleifion y mis, ar draws holl safleoedd aciwt y sefydliad. Roedd y data'n dangos, rhwng Mehefin 2014 a Chwefror 2015, canran y cleifion a oedd wedi derbyn yr holl ddosiau disgwylidig yn ystod y 24 awr flaenorol, yn amrywio o 71 y cant i 78 y cant. 95 y cant yw'r targed.

Arddangosyn 14: Roedd gan y Bwrdd Iechyd gyfran uwch o achosion lle nad oedd yn eglur a oedd dos wedi cael ei hepgor ai peidio, a hefyd pan nad oedd y feddyginiaeth ar gael

Cyfran y codau rheswm pam na roddwyd meddyginiaeth a gofnodwyd							
	Cais y rhagnodwr	Claf ddim ar y ward	Claf yn methu â chymryd y feddyginiaeth /dim mynediad	Claf wedi gwrthod meddyginiaeth	Meddyginiaeth ddim ar gael	Rheswm arall: gweler y nodiadau	Ddim yn glir a gafodd dos ei hepgor ai peidio
Cod a ddefnyddiwyd ar siartiau	X	2	3	4	5	6	Dim cod
Nevill Hall	14%	0%	1%	51%	17%	4%	14%
Ysbyty Brenhinol Gwent	17%	0%	1%	33%	7%	16%	27%
Ystrad Fawr	35%	0%	0%	23%	27%	2%	13%
Aneurin Bevan	20%	0%	1%	36%	14%	10%	20%
Cyfartaedd Cymru	18%	0%	8%	45%	8%	9%	12%

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fferylliaeth glinigol (cofnodion claf 155 o gleifion)

98. Mae safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn datgan fod 'rhaid i bolisi fod ar waith, a rhaid glynu ato, er mwyn asesu cymhwysedd unigolyn i gynorthwyo claf i gymryd meddyginiaeth'. Mae'r safonau hyn hefyd yn amlinellu cyfrifoldeb staff nyrsio i asesu cymhwysedd cleifion i gymryd eu meddyginiaethau eu hunain. Gwelsom nad oedd gan yr un o wardiau'r Bwrdd Iechyd weithdrefn ar gyfer cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth eu hunain, a 25 y cant yw'r cyfartaedd mewn byrddau iechyd ledled Cymru. Ledled Cymru, canfu ein hadolygiad fferylliaeth glinigol mai ychydig iawn o gleifion oedd yn cymryd eu meddyginiaethau eu hunain. O 994 o gleifion ledled Cymru, dim ond 12 oedd yn cymryd eu meddyginiaeth eu hunain a dim ond tri o'r rhain oedd wedi cael asesiad risg. Roedd 120 o gleifion eraill yn cymryd rhywfaint o'u meddyginiaeth eu hunain. Yn y Bwrdd Iechyd hwn, roedd un claf yn cymryd ei feddyginiaeth ei hun i gyd, roedd 22 yn cymryd rhywfaint o'u meddyginiaeth eu hunain ac nid oedd yr un ohonynt wedi cael asesiad risg.

Cynorthwyo cleifion i gydymffurfio

Y Bwrdd Iechyd oedd â'r gyfran uchaf o gleifion a oedd angen cymorth ychwanegol i gymryd eu meddyginiaeth ac mae angen iddo wneud llawer mwy i sicrhau bod anghenion cydymffurfiad cleifion yn cael eu hasesu a'u diwallu'n gyson

- 99.** Mae astudiaethau³⁵ wedi dangos bod hyd at hanner cleifion ddim yn cymryd eu meddyginiaethau yn ôl y bwriad. Gall hyn arwain at wastraff sylweddol, yn enwedig o ystyried bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario £28.6 miliwn ar feddyginiaeth yn 2013-14. Gall hyn fod oherwydd nad yw cleifion yn deall y cyfarwyddiadau i gymryd eu meddyginiaeth yn llawn, neu oherwydd nad oes ganddynt y gallu corfforol i gymryd y feddyginiaeth eu hunain. Dylai cyrff y GIG sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwyddach a mynd ati i ganfod cleifion ag angen mwy o gymorth i gymryd eu meddyginiaethau. Mae peidio â chymryd meddyginiaethau'n briodol yn peri goblygiadau pwysig i ddiogelwch cleifion hefyd.
- 100.** Cafodd sefydliadau sgôr yn seiliedig ar y camau y maent yn eu cymryd i gynorthwyo pobl i gydymffurfio â'u meddyginiaethau³⁶. Cafodd y Bwrdd Iechyd 16 o bwyntiau o gyfanswm posibl o 32, o gymharu â chyfartaledd o 17 ledled Cymru. Mae pob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio nifer o ddulliau i gynorthwyo cydymffurfiad, ond ni ddefnyddir y rhain fel mater o drefn gyda phob claf. Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oedd y ddarpariaeth o Systemau Monitro Dosiau ar batrymau meddyginiaeth cymhleth lle mae cydymffurfiad yn broblem yn gymwys ar ei safleoedd ysbyty. Mae hunanasesiad yn erbyn y Safonau yn cydnabod bylchau o ran asesu gallu cleifion i lynu at eu meddyginiaeth.
- 101.** Ledled Cymru, gwelsom fod timau fferylliaeth yn ei chael yn anodd treulio digon o amser yn addysgu cleifion am eu meddyginiaeth. Yn yr adolygiad fferylliaeth glinigol ledled Cymru, gwelsom mai dim ond chwech y cant o gleifion neu ofalwyr oedd wedi cael eu haddysgu am ryw agwedd ar eu meddyginiaeth. Yn y Bwrdd Iechyd, dim ond saith y cant oedd y ffigur hwn.
- 102.** Canfu canlyniadau ein hadolygiad fferylliaeth glinigol bod gan 32 y cant o'r cleifion a adolygwyd yn y Bwrdd Iechyd broblemau cydymffurfio. Hwn oedd y ffigur uchaf ymhlith holl fyrddau Iechyd Cymru, ac roedd yn bennaf oherwydd cleifion yn Ysbyty Brenhinol Gwent, lle'r oedd y cyfartaledd yn 57 y cant. 20 y cant oedd cyfartaledd Cymru.
- 103.** Ar y cyfan, nid yw fferyllfeydd ysbyty ledled Cymru yn gwneud digon i ddarparu gwybodaeth am feddyginiaeth i grwpiau cleifion ag anghenion gwybodaeth penodol. Nid yw fferyllfeydd y Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth benodol i gleifion â nam ar eu golwg na chleifion sy'n defnyddio ieithoedd heblaw Saesneg. Dim ond Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n cynhyrchu gwybodaeth wedi'i thargedu at blant ifanc. Ar draws y 18 ysbyty a arolygwyd gennym ledled Cymru, mae pump yn cynhyrchu gwybodaeth wedi'i thargedu at blant ifanc, mae saith yn darparu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, ac mae wyth yn darparu gwybodaeth am feddyginiaethau mewn ieithoedd heblaw Saesneg.

³⁵ 1000 o Fywydau a Mwy, Cyflawni gofal iechyd darbodus yn GIG Cymru, Mehefin 2014

³⁶ Ystyriwyd a yw cleifion yn cael eu hasesu ar eu gallu i agor cynwysyddion, a yw cleifion yn cael eu cynghori ar gyfer meddyginiaeth gymhleth risg uchel, a yw siartiau atgoffa a systemau monitro dosiau yn cael eu defnyddio, a roddir gwybodaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu, a oes grwpiau addysg yn bodoli ac a yw meddygon teulu'n cael gwybod am faterion cydymffurfiad cleifion.

- 104.** Mae'r Safonau'n nodi y dylai cleifion allu ffonio llinell gymorth i drafod eu meddyginiaethau. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth gynorthwyo cleifion sydd wedi'u rhyddhau ac sy'n ansicr am eu trefn meddyginiaeth. Yn y Bwrdd Iechyd, darperir gwasanaeth llinell gymorth yn Ysbyty Nevill Hall. Er nad oes unrhyw linell gymorth yn Ysbyty Brenhinol Gwent nac Ysbyty Ystrad Fawr ar hyn o bryd, rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno llinellau cymorth ar y safleoedd hyn.
- 105.** Ledled Cymru, daethom i'r casgliad nad yw rhai llinellau cymorth fferylliaeth yn cael eu defnyddio'n ddigonol, er eu bod yn bwysig i helpu cleifion reoli eu meddyginiaethau. Roedd defnydd llinellau cymorth ledled Cymru'n amrywio o chwech i 66 cyswllt bob 100 o oriau agor (y cyfartaledd oedd 32 cyswllt). Mae **Arddangosyn 15** yn crynhoi data allweddol am y llinellau ffôn fferylliaeth sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 15: Dim ond Nevill Hall sy'n darparu gwasanaeth llinell gymorth ac er ei fod ar agor am fwy o amser na'r cyfartaledd, nid yw'n cael ei ddefnyddio llawer

	Cyfanswm nifer yr oriau y mae ar agor (Llun-Gwener)	Cyfanswm nifer yr oriau y mae ar agor (Sadwrn-Sul)	Nifer cyfartalog y cysylltiadau bob 100 awr ar agor
Ysbyty Brenhinol Gwent	Dim Llinell Gymorth		
Ystrad Fawr	Dim Llinell Gymorth		
Ysbyty Nevill Hall	43	5	6
Cyfartaledd Cymru³⁷	40	4	32

Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru

³⁷ Cyfrifir cyfartaledd Cymru ar draws 12 safle ysbyty lle darperir gwasanaeth llinell gymorth. Mae chwe safle'n gweithredu heb linell gymorth bwrpasol, ond mae tri o'r rhain yn cynnig rhif ffôn cyswllt i gleifion rhag ofn iddynt gael problemau â'u meddyginiaeth ar ôl cael eu rhyddhau.

Cynorthwyo rhyddhau

Y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd uchaf o grynodedau rhyddhau ac adolygiadau meddyginiaeth rhyddhau electronig ledled Cymru

- 106.** Mae'n arfer da i staff ysbyty ddechrau cynllunio i ryddhau claf cyn gynted â phosibl³⁸. Drwy amcangyfrif eu dyddiad rhyddhau, gallant sicrhau bod yr holl staff yn gweithio tuag at yr un amserlen a gallant osgoi oedi diangen. Ledled Cymru, roedd gan bron i hanner yr holl gleifion a welwyd drwy'r adolygiad fferylliaeth glinigol ddyddiad rhyddhau amcangyfrifedig. Yn y Bwrdd Iechyd hwn, dim ond 17 y cant o gleifion oedd â dyddiad rhyddhau amcangyfrifedig, sef y ganran isaf ymhlith holl fyrddau iechyd Cymru.
- 107.** Mae oedi'n gallu digwydd cyn rhyddhau claf o ysbyty am amryw o resymau. Mae **Arddangosyn 16** yn dangos y gwahaniaeth rhwng barn meddygon a staff fferylliaeth ynglŷn ag achosion mwyaf cyffredin oediadau cyn rhyddhau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith i ddeall y rhesymau go iawn am oedi cyn rhyddhau sy'n gysylltiedig â rheoli meddyginiaeth.

Arddangosyn 16: Roedd gan staff fferylliaeth a meddygon wahanol farn am yr achosion mwyaf cyffredin o oediadau cyn rhyddhau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau

	Barn staff fferylliaeth	Barn meddygon
1 (mwyaf cyffredin)	Aros i bresgripsiwn gael ei ysgrifennu	Aros i feddyginiaethau gael eu dosbarthu yn y ddsbarthfa
2	Aros i feddyginiaethau gael eu danfon i'r ward	Aros i bresgripsiwn gael ei ysgrifennu
3	Aros i bresgripsiwn gael ei wirio'n glinigol	Aros i feddyginiaethau gael eu danfon i'r ward
4	Aros i feddyginiaethau gael eu dosbarthu yn y ddsbarthfa	Aros i bresgripsiwn gael ei wirio'n glinigol
5	Aros am gydosod meddyginiaeth i'w chymryd o'r ysbyty ar y ward	Aros am gydosod meddyginiaeth i'w chymryd o'r ysbyty ar y ward

Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o fferyllwyr a staff meddygol

- 108.** Pan gaiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'r rhyngwyneb rhwng yr ysbyty a meddyg teulu'r claf yn hanfodol i sicrhau rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ac effeithiol. Mae'r Safonau'n nodi y dylai'r trefniadau sicrhau bod 'gwybodaeth gywir am feddyginiaethau'r claf yn cael ei throsglwyddo i'r gweithiwr/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cymryd y cyfrifoldeb am ofal y claf ar adeg y trosglwyddiad.' Mae gan Ysbyty Neill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ystrad Fawr oll dempled safonol i'w ddefnyddio ar gyfer pob arbenigedd sy'n amlinellu'r wybodaeth i'w darparu i feddygon teulu wrth ryddhau claf. Ledled Cymru, mae templed tebyg ar gael mewn 17 o'r 18 ysbyty a adolygwyd gennym, ond dim ond 10 ohonynt sy'n ei ddefnyddio ar draws pob arbenigedd.

³⁸ Y Coleg Meddygaeth Frys, The Silver Book: Quality Care for Older People with Urgent and Emergency Care Needs, Mehefin 2012

-
- 109.** Yn y Bwrdd Iechyd, mae 78 y cant o wardiau'n cynhyrchu crynodebau rhyddhau electronig. Dyma'r uchaf yng Nghymru gyfan, lle mae'r cyfartaledd yn 34 y cant. Fe'n hysbyswyd bod system ragnodi electronig yn cael ei hystyried a byddai hyn yn helpu i gefnogi diogelwch ac ansawdd rhagnodi, er nad oes unrhyw ddyddiad ar gyfer ei chyflwyno eto. Fe'n hysbyswyd yn ystod cyfweiliad y darperir lefel uchel o grynodebau rhyddhau trwy e-Ryddhau, a bod lefel y pryder ymhlith meddygon teulu am ddiffyg gwybodaeth am feddyginiaethau wrth ryddhau wedi gostwng yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r broses ryddhau wedi cael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Meddygol, gan arwain at ganfyddiadau cadarnhaol.
- 110.** Rhoddodd staff fferylliaeth a meddygon yn y Bwrdd Iechyd safbwyntiau cymharol gadarnhaol ar ansawdd gwybodaeth ryddhau a ddarparwyd i ofal sylfaenol. Yn ein harolwg, roedd 71 y cant o staff fferyllol a 49 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae'r wybodaeth rhyddhau am feddyginiaethau cleifion a ddarperir i feddygon teulu o safon uchel.' Roedd hyn yn cymharu â 41 y cant o staff fferylliaeth a 30 y cant o feddygon ledled Cymru.
- 111.** Mae'r Safonau'n nodi y dylai sefydliadau 'fonitro cywirdeb, eglurder ac amseroldeb trosglwyddo gwybodaeth'. Nid yw Ystrad Fawr wedi archwilio ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth ryddhau yn y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod y rhain wedi cael eu harchwilio yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Dywedodd ein hadroddiad rhagnodi gofal sylfaenol bod meddygon teulu wedi mynegi pryder am y diffyg gwybodaeth ragnodi a ddarparwyd mewn llythyrau rhyddhau, faint o amser y mae'n ei gymryd i lythyrau rhyddhau gael eu derbyn, a'r diffyg gwybodaeth i gleifion am y cyffuriau y maent wedi cael eu rhyddhau â nhw.
- 112.** Pan fo claf yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, gall y staff ofyn i fferyllwyr cymunedol gynnal Adolygiad Meddyginiaethau Rhyddhau yn fuan ar ôl i'r claf ddychwelyd adref. Bwriad yr Adolygiadau hyn yw sicrhau bod newidiadau i feddyginiaeth cleifion a wneir yn yr ysbyty yn parhau'n briodol yn y gymuned. Mae'r adolygiadau hefyd yn sicrhau bod cleifion yn cael cymorth i lynu at eu trefn feddyginiaeth. Roedd adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth Adolygiadau Meddyginiaethau Rhyddhau yng Nghymru yn amcangyfrif bod pob Adolygiad yn costio £68.50 a bod yr Adolygiadau'n rhoi adenillion ar fuddsoddiad tua 3:1 drwy osgoi gorfod mynd i adrannau brys, derbyniadau i'r ysbyty a gwastraffu meddyginiaeth³⁹. Er ei bod yn ymddangos bod Adolygiadau Meddyginiaethau Rhyddhau yn effeithiol, yr hyn y maent yn ei wneud yn y bôn yw cywiro materion sydd wedi digwydd yn ystod gofal cleifion. Gellid dadlau y byddai'n well gwario'r arian hwn ar gamau cynharach i atal materion y mae angen eu cywiro'n nes ymlaen, er enghraifft, drwy wella ansawdd ac amseroldeb rhannu gwybodaeth wrth drosglwyddo gofal rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Yn y Bwrdd Iechyd, cynhaliwyd 1,361 o Adolygiadau yn 2013-14, gan gostio tua £93,200⁴⁰.
- 113.** Ariannodd y Bwrdd Iechyd 21 Adolygiad i bob 1,000 o gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty. Hon oedd y gyfradd uchaf ledled Cymru, lle'r oedd y cyfartaledd yn 14 Adolygiad i bob 1,000 rhyddhad⁴¹. Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o ddim ond dau sy'n cofnodi nifer yr atgyfeiriadau cymunedol am Adolygiad Meddyginiaethau Rhyddhau a wneir gan staff gofal eilaidd.

³⁹ Prifysgol Caerdydd, Evaluation of the discharge medicines review service, Mawrth 2014

⁴⁰ Rydym wedi cyfrifo'r gost hon drwy luosi nifer yr Adolygiadau Meddyginiaethau Rhyddhau a gynhaliwyd â £68.50.

⁴¹ Rydym wedi defnyddio nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau yn 2013-14 mewn ysbytai aciwt fel enwadur yn y paragraff hwn.

Stiwardio meddyginiaethau gwrth-ficrobau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd amrywiaeth o gamau i wella stiwardiaeth meddyginiaethau gwrth-ficrobau, er mai Ysbyty Brenhinol Gwent yw'r unig ysbyty â fferylllydd gwrthfotigau

- 114.** Mae ymwrthiant i wrthfotigau wedi cynyddu yng Nghymru.⁴² Mae cynllun gweithredu Cymru gyfan ar stiwardio meddyginiaethau gwrth-ficrobau yn sôn am bwysigrwydd hybu rhagnodi meddyginiaethau gwrth-ficrobau da drwy archwilio. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio'r pum agwedd ganlynol ar ddefnyddio meddyginiaethau gwrth-ficrobau ym mhob maes: costau, dos dyddiol a ddiffiniwyd, mynychder pwynt, ymwrthiant i feddyginiaethau gwrth-ficrobau, a'r cydberthyniad rhwng arferion rhagnodi ac organebau sy'n peri problem. Yr archwiliad mynychder pwynt yw'r unig un o'r pum pwnc hyn i gael ei gymhwyso ar draws bob maes gwasanaeth. Mae dau fwrdd iechyd arall yng Nghymru wedi archwilio bob un o'r pum pwnc hyn, ond dim ond un sydd wedi gwneud y gwaith hwn ar draws bob maes gwasanaeth. Nid oedd cwmpas ein harchwiliad yn cynnwys canfyddiadau'r archwiliadau hyn.
- 115.** Mewn lleoliadau gofal eilaidd, gall fferyllwyr gwrthfotigau neilltuedig helpu staff i ganolbwyntio ar ddefnydd priodol o feddyginiaeth wrthfotig. Er bod fferylllydd gwrthfotigau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, nid oes unrhyw fferyllwyr cyfatebol mewn ysbytai eraill.

⁴² Iechyd Cyhoeddus Cymru, Antimicrobial resistance and usage in Wales (2005-2011), Tachwedd 2012

Monitro gwasanaethau fferylliaeth

Ceir tystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd prosesau dysgu ac mae angen cryfhau gwaith adrodd ar berfformiad a deall mwy am y rhesymau am ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth

Adroddiadau ar berfformiad

Er bod adroddiadau perfformiad yn ystyried amrywiaeth dda o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, ceir lle i gryfhau gwaith adrodd ar berfformiad trwy feincnodi a thrwy wella cydonddeb a fformat adroddiadau


- 116.** Mae'r Safonau Proffesiynol Gwasanaethau Fferylliaeth Ysbytai (y Safonau) yn nodi y dylid defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt i alluogi asesiadau perfformiad mewnol ac allanol. Hefyd, dylid meincnodi perfformiad yn erbyn sefydliadau perthnasol eraill.
- 117.** Adolygwyd enghreifftiau o adroddiadau perfformiad tri misol diweddar gennym o ran rheoli meddyginiaethau. Maent yn darparu data tri misol ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn bennaf, gan gynnwys:
 - amseroedd aros cyn rhyddhau – wardiau MMP;
 - amseroedd aros cleifion allanol (ar gyfer dosbarthu meddyginiaeth);
 - cyfraddau camgymeriadau dosbarthu yn arwain at ddigwyddiadau clinigol;
 - nifer yr ymholiadau MI a atebwyd o fewn yr amser a gytunwyd; a
 - nifer yr ymyriadau a allai fod yn farwol/ddifrifol.
- 118.** Roedd gwybodaeth hefyd am wasanaethau caffael, cynhyrchu ac aseptig, a themâu penodol ar gyfer unrhyw dri mis penodol.
- 119.** Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth rifol fanwl a llawer iawn o ddisgrifiadau o ymyriadau cyffuriau. Er bod y wybodaeth ar gyfer pob safle yn gyffredinol debyg, mae fformat y wybodaeth yn wahanol ar gyfer pob un, ac yn llai trwyadl ar gyfer Ystrad Fawr. Mae cyflwyno'r wybodaeth yn dibynnu bron yn llwyr ar ddata mewn tablau a disgrifiadau helaeth. Prin iawn yw'r defnydd o siartiau tueddiadau a ffyrdd eraill o gyflwyno a all amlygu nodweddion penodol yn y data yn llwyddiannus. Nid oes crynodeb i helpu i lywio'r darllenwr i faterion allweddol. Mae'r dadansoddiad o ddigwyddiadau'n seiliedig ar ddifrifoldeb, arbenigedd a rhai cyffuriau penodol, ond nid oes unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau fesul ward neu ffyrdd eraill o edrych yn fwy manwl ar le mae patrymau'n codi. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o feincnodi neu gymharu. Daethom i'r casgliad bod lle i gryfhau adrodd ar berfformiad a monitro perfformiad o ran rheoli meddyginiaethau.
- 120.** Yn ein harolwg, roedd 41 y cant o staff fferylliaeth yn cytuno â'r gosodiad "Rydw i'n cael cyfleoedd rheolaidd i weld data sy'n ymwneud â pherfformiad y tîm fferylliaeth". Roedd hyn bron yn union yr un fath â'r canfyddiadau ar gyfer staff fferylliaeth ledled Cymru yn ei chyfanrwydd.

Ymyriadau diogelwch a derbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth

Mae cyfran y derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith i ddeall y rhesymau am ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth

121. Mae rheoli meddyginiaethau'n gyfres gymhleth o brosesau a gallai pethau fynd o chwith ar nifer o wahanol adegau. Dylai byrddau iechyd ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau arferion diogel. Lle canfyddir camgymeriadau neu ddigwyddiadau'n ymwneud â meddyginiaethau, dylai byrddau iechyd weithredu'n bendant a dangos eu bod yn dysgu gwersi ac yn atal ailddigwyddiadau.
122. Yn ein harolwg, roedd 73 y cant o staff fferylliaeth a 64 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Byddwn i'n teimlo'n ddiogel pe bai fy meddyginiaeth i'n cael ei rheoli yn yr ysbyty hwn'. Ledled Cymru, roedd y ffigurau bron yn union yr un fath.
123. Pan aiff rhywbeth o chwith â meddyginiaeth rhywun, mae'n gallu achosi derbyniad i'r ysbyty'n uniongyrchol. Mae **Arddangosyn 17** yn dangos canlyniadau archwiliad cenedlaethol o gyfradd derbyn cleifion i ysbyty o ganlyniad i broblemau â'u meddyginiaeth. Mae cyfradd y derbyniadau hyn yn y Bwrdd Iechyd ychydig bach yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r data wedi'u cymryd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ond maent wedi'u cymhlethu gan y ffaith bod timau codio'n defnyddio gwahanol ddulliau i godio'r hyn sy'n achosi derbyniadau. Felly, efallai fod maint y broblem â derbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth yn fwy nag yr awgrymir yma.

Arddangosyn 17: Mae cyfran y derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ychydig bach yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan



Canran y derbyniadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaeth

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Data, yn ôl darparwr, am y cyfnod 1/7/2012 i 31/6/2013.

-
- 124.** Roedd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol hefyd yn edrych ar dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth, a chanfu gyfran lawer uwch o dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth nag yn yr arddangosyn uchod. Yn y Bwrdd Iechyd, ystyriwyd bod naw y cant o'r cleifion a welwyd gan y tîm fferylliaeth wedi'u derbyn oherwydd mater cysylltiedig â meddyginiaeth⁴³. Mae hyn yn cymharu â 10 y cant ledled Cymru. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, byddai cost amcangyfrifol derbyniadau oherwydd materion meddyginiaeth yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14 yn £2.7 miliwn⁴⁴.
- 125.** Rhan o waith y tîm fferylliaeth yw gwneud ymyriadau pwysig pan fo risg i ddiogelwch claf. Gallai fod angen yr ymyriadau hyn er diogelwch cleifion, er enghraifft, i sicrhau nad yw cleifion ag alergedd i feddyginiaeth yn cael presgripsiwn am y cyffuriau hynny a sicrhau bod cleifion â diabetes sy'n dibynnu ar inswlin yn cael presgripsiwn inswlin cywir. Canfu ein hadolygiad fferylliaeth glinigol 26 achlysur yn y Bwrdd Iechyd lle bu i dimau fferylliaeth ymyrryd oherwydd y gallai trefn feddyginiaeth claf fod wedi peri perygl difrifol i'w ddiogelwch. Mae hyn yn gyfradd o 2.8 digwyddiad i bob 100 claf a adolygwyd. Ledled Cymru, roedd y cyfartaledd yn 4.1 digwyddiad i bob 100 claf a adolygwyd. Er bod cyfradd ymyriadau'r Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru, y gyfradd ar ward Bedwas Ystrad Fawr oedd yr uchaf yn y Bwrdd Iechyd, sef 12.4 achlysur i bob 100 claf a adolygwyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y data hyn ymhellach a phenderfynu a ddylid atgyfeirio mwy o adnoddau'r tîm fferylliaeth i ddod o hyd i wraidd camgymeriadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a'u hatal rhag digwydd, yn hytrach na'u cywiro ar ôl iddynt ddigwydd.

Dysgu pan aiff pethau o chwith


Ceir tystiolaeth gymysg am effeithiolrwydd prosesau dysgu

- 126.** Dylai byrddau iechyd adrodd pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu fel y gellir gwneud dadansoddiadau a chymariaethau cenedlaethol. Mae [Arddangosyn 18](#) yn dangos nifer y digwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth a adroddwyd fel canran o'r holl ddigwyddiadau a adroddwyd i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu.

⁴³ Ystyriwyd bod gan gleifion dderbyniad cysylltiedig â meddyginiaeth os oedd y diagnosis cychwynnol a ddogfennwyd yn cynnwys problem bosibl â meddyginiaeth, gan gynnwys adwaith niweidiol i gyffur, diffyg cydymffurfio, rhagnodi heb fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gwall dosbarthu, cyngor gwael am feddyginiaeth, ac ati.

⁴⁴ Defnyddiwyd £456 fel cost pob derbyniad, sef y ffigur a ddefnyddiwyd yng ngwerthusiad Prifysgol Caerdydd o'r gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau, Mawrth 2014. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod 65,791 o gleifion mewnol wedi'u derbyn yn 2013-14 (Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru). Mae naw y cant o hyn yn 5,921.


Arddangosyn 18: Ac eithrio brig yn 2011, mae cyfran y digwyddiadau â oedd yn gysylltiedig â meddyginiaeth wedi aros rhwng pump a chwech y cant yn y Bwrdd Iechyd, ac yn agos at gyfartaledd Cymru



Ffynhonnell: Y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, Awdurdod Iechyd Arbennig Bwrdd Comisiynu'r GIG. Mae data ar gyfer 2014 yn cynnwys digwyddiadau a adroddwyd cyn 31 Mawrth 2014.

127. Mae **Arddangosyn 19** yn dangos y mathau o ddigwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaethau a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu. Y categori digwyddiadau mwyaf cyffredin oedd 'Rhoi/cyflenwi meddyginiaeth o fan clinigol' sy'n cynnwys pob cam o'r broses rhoi meddyginiaeth o adolygu'r presgripsiwn, dewis y feddyginiaeth gywir, adnabod y claf cywir a rhoi'r dos.

Arddangosyn 19: Mae digwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth yn y Bwrdd Iechyd yn bennaf gysylltiedig â rhoi a chyflenwi meddyginiaethau o fannau clinigol



Ffynhonnell: Y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, Awdurdod Iechyd Arbennig Bwrdd Comisiynu'r GIG (1/4/2008 i 31/3/2014). Mae manylion pellach am y categorïau ar gael yn y ddolen ganlynol https://www.eforms.nrls.nhs.uk/staffreport/help/AC/Dataset_Question_References/Medicine_incident_details/M D01.htm

- 128.** Yn ein harolwg, roedd y 72 y cant o'r staff fferylliaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae digwyddiadau/camgymeriadau cysylltiedig â meddyginiaethau'n cael eu hadrodd a'u trin yn briodol yn yr ysbyty hwn', o gymharu â 71 y cant ledled Cymru. Pan ofynnwyd a oeddent yn cytuno â'r gosodiad 'Mae gwybodaeth a geir o adroddiadau digwyddiadau/camgymeriadau yn cael ei defnyddio i wneud gofal cleifion yn fwy diogel', roedd 72 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (o gymharu â 70 y cant ledled Cymru).
- 129.** Mae'r tîm fferylliaeth yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod arferion meddyginiaeth diogel yn annatod i'r Bwrdd Iechyd. Dylid rhannu'r hyn a ddysgir o gamgymeriadau meddyginiaeth a methiannau systemau cysylltiedig â meddyginiaeth â'r tîm amlddisgyblaeth a dylid gweithredu ar hyn i wella arferion. Caiff digwyddiadau meddyginiaeth eu hadrodd ar Datix ac ymchwiliwr i ddigwyddiadau difrifol. Adroddir llawer o ddigwyddiadau ar Datix felly nid oedd y staff fferylliaeth yn credu fod staff wardiau'n amharod i adrodd. Yn benodol, mae fferyllwyr yn Ystrad Fawr yn cynnal archwiliad misol o ddosiau a fethwyd sydd wedi datgelu lefel uchel o ddosiau a fethwyd. Mae fferyllwyr yn annog staff wardiau i'w hadrodd ar Datix. Er bod y rhan fwyaf o gamgymeriadau dosbarthu meddyginiaeth yn cael eu nodi cyn i'r feddyginiaeth adael y ddosbarthfa, adroddir nifer fach o gamgymeriadau sy'n digwydd ar Datix a chânt eu hadolygu gan y tîm fferylliaeth. Mae hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Safonau'n cydnabod y lle i wella, gan nodi diffyg adrodd dosiau a fethwyd gan staff nyrsio o ran dosbarthu meddyginiaethau.

-
- 130.** Mae rhai cleifion yn gallu dioddef effeithiau negyddol o gymryd eu meddyginiaeth, sef adweithiau niweidiol i gyffuriau. Mae rhai adweithiau'n annisgwyl ond mae rhai'n rhagweladwy. Mae Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol wedi cyfrifo bod pedwar o bob 100 dydd gwely ysbyty'n cael eu hachosi gan adweithiau niweidiol i gyffuriau yn y Deyrnas Unedig. Yn y Bwrdd Iechyd, mae adweithiau niweidiol yn costio tua £9.9 miliwn y flwyddyn mewn diwrnodau gwely yn unig. Fe'n hysbyswyd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro tueddiadau na phatrymau digwyddiadau niweidiol. Maent wedi adolygu derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau pan fod adwaith niweidiol i feddyginiaeth wedi arwain at dderbyniad, er enghraifft, gwaedu ar ôl defnyddio asbirin neu warfarin.
- 131.** Pan fydd cleifion yn cael adwaith niweidiol o ganlyniad i'w meddyginiaeth, dylai staff adrodd y digwyddiadau hyn i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaeth a Chynhyrchion Gofal Iechyd gan ddefnyddio'r Cynllun Cerdyn Melyn. Yn y Bwrdd Iechyd hwn yn 2013-14, fferyllwyr ysbyty yw'r grŵp proffesiynol sy'n adrodd y nifer fwyaf o ddigwyddiadau niweidiol, ac roedd hyn yn nodweddiadol ledled Cymru. Canfu ein hadolygiad fferylliaeth glinigol un achlysur yn unig lle canfu timau fferylliaeth symptomau adweithiau neu sgil-ffeithiau niweidiol posibl i gyffuriau wrth adolygu cleifion. Mae hyn yn gyfradd o un digwyddiad i bob 1,000 claf a adolygwyd, sef yr isaf yng Nghymru. Y gyfradd gyfartalog yng Nghymru oedd chwech i bob 1,000 claf a adolygwyd. Mae'r data hyn yn awgrymu y gallai fod o fudd i'r Bwrdd Iechyd hyrwyddo'r Cynllun Cerdyn Melyn ymhellach i staff o bob grŵp proffesiynol.
- 132.** Yn ein harolwg, roedd 76 y cant o staff fferylliaeth a 26 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae defnyddio'r Cynllun Cerdyn Melyn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn y Bwrdd Iechyd hwn'. Roedd hyn yn cymharu â 59 y cant o staff fferylliaeth a 31 y cant o feddygon ledled Cymru.
- 133.** Dylai fod cyrff iechyd wedi sefydlu pwyllgor diogelwch meddyginiaeth. Dylai hwn fod yn grŵp amlbroffesiwn i adolygu digwyddiadau camgymeriadau meddyginiaeth a gwella diogelwch meddyginiaeth yn lleol. Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Diogelwch Meddyginiaeth gweithredol sy'n adolygu camgymeriadau meddyginiaeth ac yn cyflwyno rhybuddion pan fo angen dosbarthu gwybodaeth am gamgymeriadau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Atodiad 1

Methodoleg

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys y dulliau canlynol:

Dull	Manylion
Offeryn rheoli meddyginiaethau craidd	Yr offeryn craidd oedd prif ffynhonnell y data corfforaethol yr oeddem yn gofyn amdanynt gan y Bwrdd Iechyd/yr ymddiriedolaeth. Roedd yr offeryn wedi'i ddarparu ar daflen Excel.
Cais am ddogfennau	Gwnaethom gais am tua 12 o ddogfennau gan y Bwrdd Iechyd, ac adolygwyd y rhain.
Adolygiad fferylliaeth glinigol	Cwblhawyd yr adolygiad fferylliaeth glinigol gan dimau fferylliaeth ar y wardiau canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Nevill Hall – Uned Derbyniadau Brys, Ward 4/2• Ysbyty Brenhinol Gwent - wardiau D4E, D1W a D4W• Ystrad Fawr – Bedwas Bwriad yr adolygiad oedd cofnodi gweithgarwch timau fferylliaeth yn ystod ymweliadau â wardiau.
Cyfweliadau	Cyfwelwyd â nifer fach o'r staff gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Y Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth• Y Cyfarwyddwr Meddygol• Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol• Prif Fferylllydd Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall• Fferylllydd Gwasanaethau Clinigol, Ysbyty Nevill Hall• Rheolwr Fferylliaeth, Ystrad Fawr
Archwiliadau	Ymwelwyd â'r holl ysbytai aciwt yn y Bwrdd Iechyd i gynnal arsylwad yn fferyllfa/dosbarthfa yr ysbyty. Hefyd, ymwelwyd â'r wardiau canlynol i siarad â staff a chynnal adolygiad siartiau cyffuriau: <ul style="list-style-type: none">• Ysbyty Brenhinol Gwent – D2Gorllewin, C5E• Nevill Hall – Glan Ebbw 3/1 Trawma ac Orthopedeg• Ystrad Fawr – Uned Derbyniadau Meddygol Bedwas
Arolygon staff meddygol a nyrsio	Cynhaliwyd arolwg ar-lein o sampl o staff meddygol a nyrsio i ofyn am eu barn am effeithiolrwydd rheoli meddyginiaethau o fewn y sefydliad. Cawsom 67 o ymatebion gan feddygon (roedd 62 y cant o'r rhain yn ymgynghorwyr). Ledled Cymru, cawsom 413 o ymatebion gan feddygon. Yn y Bwrdd Iechyd, dim ond 12 o ymatebion a gawsom gan nyrsys (a ledled Cymru cawsom 377 o ymatebion gan nyrsys).
Arolwg staff fferylliaeth	Cynhaliwyd arolwg ar-lein o staff fferylliaeth i ofyn am eu barn am effeithiolrwydd rheoli meddyginiaethau o fewn y sefydliad. Cawsom gyfanswm o 75 ymateb; daeth 26 o'r rhain gan staff sydd wedi'u lleoli yn Nevill Hall, 40 gan staff sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Brenhinol Gwent a naw sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Aneurin Bevan ac Ystrad Fawr. Ledled Cymru, cawsom 407 o ymatebion gan staff fferylliaeth.

Atodiad 1

Dull	Manylion
Defnyddio data presennol	Defnyddiwyd ffynonellau data presennol lle bynnag y bu'n bosibl, megis data am ddiwyddiadau o'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, data o adolygiad Prifysgol Caerdydd o'r Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau Rhyddhau ac ymarfer mapio adnoddau fferylliaeth GIG Cymru 2014.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk